Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gweithredu'r Hawliau

Rhoi Hawliau Plant a Phobl Ifanc ar waith yng Nghymru

PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION

G/548/06-07
ISBN 978 0 7504 4101 8

Chwefror
CMK-22-07-175

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y goron 2007

Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn. Dyma'r tro cyntaf ers i'r DU gadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i Gymru gynhyrchu ei hadroddiad ei hun ar y cynnydd a gafwyd wrth roi'r hawliau hynny ar waith.

Mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n cydnabod ac yn amddiffyn hawliau dynol plant, hyd at 18 oed. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ill dau wedi ymrwymo'n llwyr i'r Confensiwn, ac maent wedi'i fabwysiadu'n fframwaith ar gyfer yr holl waith y maent yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac ar eu cyfer. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi defnyddio Hawliau'r Confensiwn fel sylfaen i'n Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 1 yn yr adroddiad hwn. Mae hynny'n golygu bod y Confensiwn wedi'i ddefnyddio mewn modd rhagweithiol ers datganoli i greu polisi a phennu'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylid ystyried yr adroddiad cyfan yn fynegiad o'n hymrwymiad i wireddu Hawliau'r Confensiwn er mwyn yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle inni dynnu sylw yn genedlaethol ac mewn gwledydd tramor at y strategaeth neilltuol yr ydym wedi'i dilyn yng Nghymru, ac i ddathlu ein llwyddiannau. Un o'n llwyddiannau mwyaf fu'r gwaith pwysig a wnaethom, ar y cyd â'n partneriaid, i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc. Ymdrinnir â hynny'n benodol ym Mhennod 2. Mae gennym le i ymfalchïo hefyd yng Nghymru yn rhai o'r sefydliadau newydd yr ydym wedi'u creu i hyrwyddo hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys y Comisiynydd Plant cyntaf yn y DU a Draig Ffynci: y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Byddant yn dal i gynnig her i Lywodraeth bresennol y Cynulliad a rhai'r dyfodol i sicrhau bod ein polisïau'n canolbwyntio'n wirioneddol ar hawliau, anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc.

Mae llawer mwy i'w gyflawni, ond rydym wedi dechrau gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Ceir rhestr o'n polisïau strategol ar gyfer plant a phobl ifanc ar ddiwedd Pennod 1 yn yr adroddiad hwn, ond dyma rai o gonglfeini ein polisi:

Ymestyn Hawliau (2002) sy'n nodi 10 hawl sylfaenol i'r holl bobl ifanc 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Rydym yn ymdrechu ar hyn o bryd i weithredu'r hawliau hynny ymhellach, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnwys grwpiau o bobl ifanc sy'n fwy anodd eu cyrraedd.

Y Wlad sy'n Dysgu (2001) oedd y man cychwyn i broses o newid sylfaenol mewn addysg, gyda'r bwriad o sicrhau'r amgylchedd gorau posibl i hybu dysgu ym mhob cyfnod ym mywydau pobl, o'r sylfeini cadarn yn y Blynyddoedd Cynnar hyd at Lwybrau Dysgu 14-19 unigol ac ymlaen wedyn. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'n cynnydd ar weithredu'r agenda honno, a chynigion ar gyfer parhau â'r agenda hyd at 2010.

Bydd **Deddf Plant 2004** yn creu trefniadau cryfach o lawer ar gyfer gwasanaethau plant integredig ar y lefel leol. O fis Medi 2008, bydd gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru Gynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer yr holl wasanaethau i rai 0-25 oed. Mae dulliau o fesur canlyniadau, sy'n seiliedig ar Hawliau'r Confensiwn, yn cael eu datblygu er mwyn canfod pa mor llwyddiannus fydd y trefniadau partneriaeth newydd hyn.

Mae'r **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth** (2005) yn strategaeth 10 mlynedd sy'n pennu safonau cenedlaethol i wella ansawdd a lleihau gwahaniaethau yn y dull o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau lleol eraill. Mae'r safonau hynny a'r camau gweithredu allweddol sy'n eu hategu wedi'u seilio ar Hawliau'r Confensiwn, a byddant yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u darparu mewn modd sy'n canolbwyntio ar hawliau.

Mae'r **Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Dlodi Plant** (2006) yn cynnwys amryw o gynigion, targedau a cherrig milltir i wireddu ein hymrwymiad i haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020.

Mae hon yn agenda uchelgeisiol a phellgyrhaeddol. Cawsom wybod gan blant a phobl ifanc eu bod yn awyddus i weld ein polisïau'n gwneud gwir wahaniaeth yn eu bywydau. Rydym yn gwybod na fyddant yn derbyn unrhyw esgusion os methwn â mynd â'r maen i'r wal. Bydd prosiect "Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni"

Draig Ffynci yn taflu goleuni pellach ar deimladau plant a phobl ifanc ledled Cymru am y graddau y maent yn gallu arfer eu hawliau, a lle y maent yn teimlo ein bod yn llwyddo a lle'r ydym yn methu â chyrraedd y nod.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn rhai diddorol i lywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan fod pwerau newydd sylweddol yn cael eu rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth newydd y Cynulliad, a chan fod rhaglen wella helaeth ar waith sydd â'r amcan o sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da a fydd yn canolbwyntio ar y dinesydd. Dinasyddion yw plant a phobl ifanc, ac mae ganddynt fudd yn ein cymdeithas yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Rydym dan ddyletswydd iddynt i sicrhau y gallant fwynhau eu hawliau'n llawn ym mhob cyfnod o'u bywydau.

Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog Cymru

Jane Hutt AC
Y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant

Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cyfraniad a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill a chyda'r sector gwirfoddol, i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc fel y maent wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar y cynnydd a gafwyd er 2002, sef y tro diwethaf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn edrych ar gyflwr hawliau plant yn y DU. Mae'n ymdrin yn bennaf â materion sydd wedi'u datganoli - y rhai y mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyr neu'n rhannol gyfrifol amdanynt.

Adrodd ar Gonfensiwn y CU

Cadarnhaodd y DU Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar ddiwedd 1991 a daeth i rym yn Ionawr 1992. Mae'r Confensiwn yn mynnu bod aelod-wladwriaethau ("Partïon Gwladwriaethau") yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae trydydd adroddiad cynnydd y DU i'w gyflwyno ym mis Gorffennaf 2007.

Pan gyflwynwyd ail adroddiad cynnydd y DU yn 1999, roedd llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dal i fod yn ei dyddiau cynnar. Erbyn hyn, chwe blynedd yn ddiweddarach, mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud eu cyfraniadau sylweddol eu hunain at wireddu hawliau plant a phobl ifanc yn eu priod diriogaethau, a phenderfynwyd y bydd pob un yn llunio ei hadroddiad cynnydd ei hun yn 2007.

Yn ogystal â chyfrannu at adroddiad y DU gyfan, gobeithir y bydd yr adroddiad hwn yn sail i ddeialog adeiladol gyda chyrff eraill a chyda phlant a phobl ifanc ynghylch cyflwr eu hawliau yng Nghymru. Gwahoddwyd cyrff anllywodraethol blaenllaw a llywodraeth leol yng Nghymru i roi sylwadau ar ddrafft o'r adroddiad hwn yn ystod hydref 2006, a thrafodwyd y prif bynciau gyda grwpiau o blant a phobl ifanc yn un o ddigwyddiadau preswyl Draig Ffynci ym mis Tachwedd.

Proses gynhwysol

Mae deialog yn rhan hanfodol o'r broses adrodd ar Gonfensiwn y CU. Mae canllawiau Pwyllgor y CU ar adrodd yn egluro bod yn rhaid i lywodraethau ar bob lefel, wrth baratoi'r adroddiadau hyn, geisio cyfranogiad gan gyrff anllywodraethol a phlant a phobl ifanc. Yn ogystal â hynny, gwahoddir cyrff anllywodraethol i gyflwyno "adroddiad amgen" i Bwyllgor y CU. Hefyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd nifer bach ond cynyddol o gyflwyniadau i'r Pwyllgor gan y plant a'r bobl ifanc eu hun.

Bydd y gwaith o lunio'r adroddiad amgen o Gymru'n cael ei arwain gan Grŵp Monitro Cymru ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Caiff ei gyflwyno yn hydref 2007. Mae'r Grŵp Monitro'n gynghrair o gyrff gwirfoddol, academyddion, ac asiantaethau eraill fel Draig Ffynci, a sefydlwyd yn 2002. Lluniodd y Grŵp Monitro adroddiad dros dro, *Cywiro'r Cam: Realiti Hawliau Plant yng Nghymru*, yn Ionawr 2006. Fe'i lansiwyd mewn cynhadledd bwysig yn Abertawe, lle bu'r Athro Jaap Doek, cadeirydd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn siaradwr allweddol, ynghyd â'r Gweinidog dros Blant yn Llywodraeth y Cynulliad a Chomisiynydd Plant Cymru. Mae *Cywiro'r Cam* yn werthfawr fel arwydd o safbwynt y cyrff anllywodraethol ar y cynnydd at wireddu hawliau plant yng Nghymru, ac ystyriwyd y negeseuon sydd ynddo wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Un datblygiad newydd cyffrous yn y cylch adrodd hwn fydd adroddiad a lunnir gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, fel rhan o brosiect pwysig a gyflawnir gan Draig Ffynci - y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Bydd yr adroddiad hwn, sydd i'w alw'n *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni*, yn seiliedig ar farn mwy nag 8,000 o bobl ifanc 11-18 oed a 2,000 o blant 7-10 oed o bob rhan o Gymru, am eu teimladau am y graddau y maent yn gallu arfer eu hawliau dan y Confensiwn. Caiff Ein *Hawliau Ni, Ein Stori Ni* ei gyflwyno hefyd i Bwyllgor y CU yn hydref 2007.

Bydd y Comisiynwyr Plant o bob rhan o'r DU hefyd yn adrodd i Bwyllgor y CU. Hwn fydd y tro cyntaf i'r Pwyllgor gael adroddiadau sy'n seiliedig ar farn yr eiriolwyr annibynnol hyn dros blant.

Trefn yr adroddiad hwn

Mae trefn yr adroddiad hwn yn dilyn y canllawiau sydd wedi'u gosod gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n grwpio Hawliau'r Confensiwn dan y penawdau canlynol:

- Mesurau gweithredu cyffredinol

- Egwyddorion cyffredinol
- Hawliau sifil a rhyddid
- Yr amgylchedd teuluol a gofal amgen
- Iechyd a lles sylfaenol
- Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol
- Mesurau amddiffyn arbennig.

Mae'r adroddiad yn cymryd fel man cychwyn y Sylwadau Terfynol a wnaed gan Bwyllgor y CU yn 2002. Mae'r rhain yn nodi casgliadau'r Pwyllgor ynghylch cyflwr hawliau plant yn y DU, ac argymhellion ar gyfer eu hyrwyddo. Roeddent wedi'u hanelu at y Parti Gwladwriaeth (y DU) yn gyfan, ac mae rhai sydd heb fod yn uniongyrchol berthnasol i Gymru, ac eraill sy'n ymdrin â meysydd sydd heb eu datganoli i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr argymhellion hynny sy'n dod o fewn meysydd sydd wedi'u datganoli, er ei fod yn ymdrin hefyd â rhai meysydd, fel tlodi plant, cyfiawnder ieuenctid, a phlant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid, lle y mae diddordeb gan Lywodraeth ganolog a Llywodraeth y Cynulliad.

Cynnwys

Pennod 1: MESURAU GWEITHREDU CYFFREDINOL 1

Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau 1

Adnoddau 9

Sefydliadau hawliau dynol annibynnol 9

Casglu data 12

Hyfforddiant a Lledaenu 13

Polisïau strategol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc 15

Pennod 2: EGWYDDORION CYFFREDINOL 19

Mynd i'r afael â Gwahaniaethu 19

Buddiannau Gorau'r Plentyn 20

Parch at farn y plentyn: Cyfranogi 21

Parch at farn y plentyn: Eiriolaeth a chwynion 25

Pennod 3: HAWLIAU SIFIL A RHYDDID 29

Ataliadau a charchariadau unigol 29

Cosbi Corfforol 30

Pennod 4: YR AMGYLCHEDD TEULUOL A GOFAL AMGEN 33

Amddiffyn plant 34

Rhianta a Gofal Plant 37

Pennod 5: IECHYD A LLES SYLFAENOL 45

Mynediad i wasanaethau iechyd 45
Hybu bwydo ar y fron 50
Anffurfio organau cenhedlu menywod 51
Iechyd rhywiol, beichiogi a rhianta yn yr arddegau 52
Gwybodaeth a chymorth i bobl ifanc hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol 53
Tlodi plant a digartrefedd ymysg pobl ifanc 54
Maethiad a gweithgarwch corfforol 57

Pennod 6: ADDYSG, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL 61

Cyfranogi gan Ddisgyblion 62
Cynnwys Disgyblion 66
Addysg plant sydd yn y ddalfa ac mewn gofal 73
Rhaglenni addysgol i famau yn eu harddegau 75
Bwlio 75
CCUHP yng nghwricwlwm ysgolion 77
Chwarae 78
Gwasanaeth Ieuenctid 79

Pennod 7: MESURAU AMDDIFFYN ARBENNIG 81

Plant sy'n geiswyr lloches / ffoaduriaid 81
Plant Teithwyr 83
Camfanteisio rhywiol a masnachu 84
Cyfiawnder Ieuenctid 85

Pennod 1: Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Erthygl 4 *Camau i'w cymryd gan Bartïon Gwladwriaeth i roi'r Confensiwn ar waith*. **Erthygl 42** *Dylai'r Llywodraeth roi gwybod am y Confensiwn i'r holl rieni a phlant, ac* **Erthygl 44, paragraff 6** *peri bod ei hadroddiadau ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd.*

Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau

Yn 2002, croesawodd Pwyllgor y CU y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r Confensiwn fel fframwaith i'w Strategaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, mynegodd bryder ynghylch diffyg cydgysylltu wrth roi Hawliau'r Confensiwn ar waith ledled y Parti Gwladwriaeth, a diffyg dull datblygu polisi a oedd yn seiliedig ar hawliau.

Yn yr adran hon nodir y fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyffredinol ar gyfer hawliau plant yng Nghymru, gan ddangos sut y mae Hawliau'r Confensiwn yn cael eu defnyddio fel sail wrth ddatblygu polisi ac fel cymorth wrth bennu'r modd i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio Saith Nod Craidd, gyda phob un yn seiliedig ar Erthyglau Confensiwn y CU.

Nodau Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn bwriadu sicrhau y bydd yr holl blant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd a'r sylfaen orau posibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol (Erthyglau 3, 29 a 36)
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a dysg, yn cynnwys dysgu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol (Erthyglau 23, 28, 29 a 32)

- yn mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, yn cynnwys rhyddid oddi wrth gamdriniaeth, erlid a chamfanteisio (Erthyglau 6, 18-20, 24, 26-29, 32-35, 37 a 40)
- yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, diwylliannol a chwaraeon (Erthyglau 15, 20, 29 ac 31)
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin gyda pharch, ac yn cael cydnabyddiaeth i'w hunaniaeth hiliol a diwylliannol (Erthyglau 2, 7, 8, 12-17 ac 20)
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n hybu lles corfforol ac emosiynol (Erthyglau 19, 20, 25, 27, 32-35)
- yn peidio â phrofi anfantais oherwydd tlodi plant (Erthyglau 6, 26, 27 ac 28).

Mae'r Saith Nod Craidd hyn yn parhau'n fynegiad sylfaenol o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i blant y wlad. Maent yn dal i fod yn sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, ac er eu mwyn, ac maent yn cynnig fframwaith cyffredin at gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru, ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae Aelodau'r Cynulliad hefyd wedi pleidleisio i fabwysiadu Confensiwn y CU fel y fframwaith cyffredinol ar gyfer gwaith y Cynulliad Cenedlaethol ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaeth gyntaf ar gyfer plant, *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* ym mis Gorffennaf 2000. Ar ôl hynny, yn 2004, cafwyd *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*, a oedd yn adrodd ar gynnydd ac yn disgrifio'r ffordd ymlaen. Roedd y ddwy ddogfen yn mynegi ymrwymiad i Gonfensiwn y CU.

Bu Confensiwn y CU yn sail i bolisïau cyffredinol allweddol eraill, gan gynnwys *Ymestyn Hawliau* a'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth*. Mae *Ymestyn Hawliau* yn nodi 10 hawl sylfaenol i'r holl bobl ifanc 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am Ymestyn Hawliau isod (t.3). Mae'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol* yn nodi mwy na 200 o gamau gweithredu allweddol penodol a fydd yn sicrhau safonau gwasanaeth mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill dan lywodraeth leol (addysg, trafnidiaeth a'r amgylchedd), cyn geni plant nes iddynt ddod yn oedolion. Mae pob un o'r rhain yn cyfrannu at yr agenda gyffredinol ar Weithredu'r Hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth am y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ym Mhennod 5.

Mae rhestr lawnach o bolisïau strategol allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc ar ddiwedd y bennod hon (tt. 5-18).

Ymestyn Hawliau: cymorth a gwasanaethau i rai 11-25 mlwydd oed yng Nghymru

Bu Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ers ei sefydlu i roi hawl sylfaenol gyffredinol i gael gwasanaethau i'r holl bobl ifanc, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, ac i'w helpu i gael arfer yr hawl honno'n rhwydd. Mae'r polisi cenedlaethol hwn yn dibynnu ar gydweithredu ag amryw o bartneriaid lleol a chenedlaethol i'w roi ar waith yn effeithiol. Mae'r hawl wedi'i nodi mewn dau fformat, gan gynnwys fersiwn hwylus i bobl ifanc (gweler y tabl isod).

CHI SY'N BWYSIG

Ymestyn Hawliau - I Bobl Ifanc 11-25 oed yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i bob unigolyn ifanc yng Nghymru rhwng 11 a 25 oed fod â'r un hawliau (pethau y caniateir iddyn nhw eu gwneud/y dylen nhw eu cael/y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw). Daw cyfrifoldebau law yn llaw â hawliau - yn achos oedolion ac yn eich achos chi fel rhywun ifanc. Y pethau y mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylech chi fod â hawl iddyn nhw yw cyfleoedd a dewis:

1. Eich Hawliau

a. I ddysgu beth yw'ch hawliau a'u deall
b. Gwneud yn siŵr eich bod yn gallu eu hawlio a'u deall, a derbyn y cyfrifoldebau a ddaw yn eu sgil

2. Cael eich Clywed

Mae gennych chi hawl i gael cyfle i chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu gweithred a allai effeithio arnoch chi. Bod â llais, bod â dewis, hyd yn oed os nad chi sy'n gwneud y penderfyniad eich hun. Eich llais chi, eich dewis chi.

3. Teimlo'n Dda

Teimlo'n hyderus a theimlo'n dda amdanoch chi'ch hun.

4. Addysg a Chyflogaeth

a. Gallu dysgu am bethau sydd o ddiddordeb i chi ac sy'n effeithio arnoch chi
b. Mwynhau'r swydd rydych chi'n ei gwneud
c. Chwarae rhan mewn gweithgareddau rydych chi'n eu mwynhau, gan gynnwys hamdden, cerddoriaeth, chwaraeon ac ymarfer, gweithgareddau artistig, diddordebau a gweithgareddau diwylliannol

5. Cymryd Rhan

Cymryd rhan mewn gwirfoddoli a bod yn weithredol yn eich cymuned

6. Bod yn Unigolyn

a. Cael eich trin â pharch a chael pawb i'ch trin yn gyfartal

b. Cael eich cydnabod am yr hyn sydd gennych chi i'w gyfrannu ac am eich cyflawniadau

c. Dathlu'r hyn rydych chi'n ei gyflawni

7. Gwasanaethau Hygyrch

Y gwasanaethau gorau yn hygyrch i chi, sef gwasanaethau y dylech chi eu cael, yn lleol ac yn genedlaethol, a bod â rhywun ar gael i'ch helpu i ddod o hyd iddyn nhw.

8. Iechyd a Lles

Byw bywyd iach, boed yn gorfforol neu'n emosiynol

9. Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Hygyrch

Gallu cael gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar eich bywyd, yn ôl y galw, gan gynnwys cyngor a chymorth mewn cysylltiad â'ch gyrfa

10. Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Byw mewn cartref diogel a chymuned ddiogel

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arwain prosiect sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n ceisio hyrwyddo'r broses o weithredu Ymestyn Hawliau. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei weithredu ar y cyd ag 16 o bartneriaid lleol a chenedlaethol, yn rhoi sylw i bum thema allweddol:

- Cyfranogi: cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Gwybodaeth a chyngor
- Cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Achredu
- Cymorth dwys.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau buddiant arbennig. Ymhlith y rhain y mae teithwyr ifanc, pobl ddigartref ifanc, pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, gofalwyr

ifanc, pobl ifanc sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal, pobl ifanc sydd ag anghenion arbennig, pobl anabl ifanc, pobl ifanc y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ifanc, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a phobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Deddfwriaeth

Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau deddfu sylfaenol, ac mae'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gymwys i Gymru wedi'i gwneud gan Senedd y DU yn San Steffan.

Er hynny, mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ac i roi canllawiau statudol ac anstatudol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae un enghraifft gynnar o'r defnydd o'r pwerau hynny i'w gweld yn Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n mynnu bod y Comisiynydd yn rhoi sylw i Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn - y cyfeiriad cyntaf at y Confensiwn mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi defnyddio ei phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i wahardd cosbi corfforol yn yr holl leoliadau gofal dydd a gwarchod plant sydd wedi'u rheoleiddio.

O fis Mai 2007, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gallu gwneud ei ddeddfwriaeth ei hun (a elwir yn Fesurau'r Cynulliad) mewn rhai meysydd. Bydd yn rhaid aros i weld sut y bydd y Cynulliad a'r Llywodraeth Cynulliad Cymru newydd yn defnyddio'r pwerau hynny i hybu hawliau plant a phobl ifanc.

Cydgysylltu a chynllunio ar lefel genedlaethol

Mae polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei gydgysylltu ar y lefel uchaf gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc.

Y Gweinidog dros Blant yw cadeirydd yr Is-bwyllgor a'i aelodau yw'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon; Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; a Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Mae'r Is-bwyllgor yn cwrdd bob mis yn ystod amser tymor.

Ei gylch gorchwyl yw

- goruchwylio'r gwaith o weithredu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru a Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc;

- sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc yn cael blaenoriaeth ddyladwy yn yr holl waith o lunio polisi gan y Cabinet a Llywodraeth y Cynulliad;
- hybu iechyd, lles a datblygiad addysgol, cymdeithasol a phersonol yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru;
- ymladd yn erbyn anfantais gymdeithasol sy'n deillio o dlodi, anabledd neu ddiffyg cyfle addysgol;
- helpu'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru i wireddu eu potensial i'r graddau mwyaf posibl yn eu bywyd fel oedolion.

Mae Is-bwyllgor y Cabinet yn cael cymorth gan ddau grŵp o swyddogion. Mae'r cyntaf (Grŵp y Swyddogion) yn cynnwys uwch weision sifil, ac mae'n sicrhau dull cydlynol o ddatblygu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr holl feysydd pwnc. Bydd yr holl gynlluniau o bwys sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael eu hystyried gan Grŵp y Swyddogion a'u clirio gan Is-bwyllgor y Cabinet. Mae'r ail grŵp (y Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc) yn cynnwys swyddogion sy'n ymwneud i fwy o raddau â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi o ddydd i ddydd.

Mae mecanweithiau wedi'u creu i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth benodol i anghenion a hawliau plant a phobl ifanc wrth arfarnu polisïau newydd arfaethedig. Mae'n ofynnol i'r holl bolisïau strategol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori arnynt fynd drwy broses y Porth i Bolisïau'n gyntaf. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ffurf gryno ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.

Mae'r Porth i Bolisïau'n arfarniad lefel uchel sy'n cynnwys swyddogion o'r prif adrannau polisi, a rhanddeiliaid o'r tu allan hefyd weithiau, a fydd yn pwyso a mesur cynigion yn ôl amcanion polisi allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys: rhoi i blant a phobl ifanc y cyfleoedd a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i gael y dechrau gorau mewn bywyd; sicrhau bod gwasanaethau a pholisi'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc; mynd i'r afael â thlodi plant; hwyluso cyfranogiad ehangach; a sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer chwarae a hamdden ar gael i bob plentyn. Mae cwestiynau hefyd ynghylch cyfiawnder cymdeithasol, amddifadedd (yn cynnwys cwestiwn penodol am dlodi plant), iechyd a lles, anghydraddoldebau iechyd ac addysg.

Yr amcan yw sicrhau bod polisïau wedi'u dylunio'n dda a'u hystyried yn drwyadl, fel y byddant yn fwy effeithiol wrth eu rhoi ar waith. Yn ogystal â hynny, cynigiwyd hyfforddiant ar ddatblygu polisi i lunwyr polisi, i sicrhau eu bod yn meddu ar yr offer a'r weledigaeth gynhwysfawr y mae eu hangen

arnynt i ddatblygu polisi'n dda. Rhoddwyd pwys yn yr hyfforddiant ar yr angen i ymgysylltu'n gynnar â'r rhai y bydd polisïau'n effeithio arnynt, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Cydgysylltu a chynllunio ar lefel leol

Er mwyn sicrhau canlyniadau gwell a pharhaol i blant a phobl ifanc, rhaid wrth gydweithio a chydweithredu rhwng asiantaethau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cydlynol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddiwallu eu hanghenion. Mae Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill, ynghyd â'r sector gwirfoddol a chymunedol, wedi rhoi'n helaeth o'u hamser a'u hegni yn y blynyddoedd diwethaf i sefydlu trefniadau i weithio ar y cyd yn effeithiol ledled Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau lleol arwain y ffordd wrth ddatblygu gwaith mewn partneriaeth, gan ddarparu gwasanaethau integredig effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ar y lefel leol.

Er 2002 bu Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Partneriaethau hynny wedi dod â'r holl bartneriaid lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc at ei gilydd, ac wedi llunio Cynllun Fframwaith Plant a Phobl Ifanc cyffredinol.

Mae Deddf Plant 2004 wedi creu sail statudol newydd ar gyfer gweithio a chynllunio mewn partneriaeth, ac mae hynny'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.

Y newidiadau allweddol a gafwyd drwy'r Ddeddf Plant yw:

a) Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, yr asiantaethau allweddol sy'n bartneriaid iddynt a chyrff perthnasol eraill gydweithredu i hybu lles plant a phobl ifanc yn yr ardal leol. Mae'r Ddeddf Plant hefyd yn galluogi awdurdod lleol a'i bartneriaid statudol i gronni eu cyllidebau ac adnoddau heblaw arian (fel staff, nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau) i hybu lles plant a phobl ifanc. Bydd defnyddio'r hyblygrwydd hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyrraedd y Saith Nod Craidd - er enghraifft, Nod Craidd 7 ar ddileu tlodi plant.

b) Rhaid i bob awdurdod lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc, ac aelod arweiniol (cynghorydd lleol etholedig). Hefyd, rhaid i bob ymddiriedolaeth GIG a Bwrdd Iechyd

Lleol fod â chyfarwyddwr gweithredol ac anweithredol arweiniol (ymddiriedolaethau GIG) neu swyddog ac aelod arweiniol (BILlau). Mae'r rhain yn gyfrifol am gynllunio ar y cyd a gweithio integredig. Mae canllawiau statudol Llywodraeth y Cynulliad *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau* (Gorffennaf 2006) yn mynnu bod cyfarwyddwyr arweiniol yn hyrwyddo ac yn gofalu am weithredu Confensiwn y CU ar lefel leol, ac yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn y broses o gynllunio ac adolygu gwasanaethau.

c) Ceir Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc statudol yn ardal pob awdurdod lleol. Mae ganddi gyfrifoldeb dros wasanaethau i'r holl blant a phobl ifanc o'r adeg cyn eu geni hyd at 25 oed.

d) O fis Medi 2008, bydd yn ofynnol i bob ardal awdurdod lleol fod â Chynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer yr holl wasanaethau i rai 0-25 oed, yn ogystal â gwasanaethau mamolaeth.

Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd y datganiad strategol canolog a fydd yn nodi sut y caiff lles yr holl blant a phobl ifanc yn yr ardal ei wella, ac at hwn y cyfeirir os bydd angen egluro cynlluniau eraill. Ei bwrpas yw:

- cynnig gweledigaeth strategol a nodi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a fydd yn llywio gwaith yr holl bartneriaid;
- disgrifio'r dull o ddelio'n lleol â'r gofynion mewn strategaethau, polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol;
- nodi amcanion ar y cyd y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau y gellir eu defnyddio fel cerrig milltir i fesur y cynnydd ar wella canlyniadau dros gyfnod y cynllun;
- pennu'r cyfraniad a wneir gan bartneriaid penodol at gyflawni'r amcanion ar y cyd, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn ategu ei gilydd;
- bod yn sylfaen ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd a rhannu'r holl gyllid sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd y partneriaid statudol a chyfraniadau ar ffurf arian neu adnoddau gan y sector gwirfoddol.

Bydd y gwaith ar ddatblygu dulliau o fesur canlyniadau o gymorth i ganfod pa mor llwyddiannus yw'r trefniadau partneriaeth newydd hyn.

Adnoddau

Roedd Pwyllgor y CU wedi argymell y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig ymgymryd â dadansoddiad tryloyw o gyllidebau, i ddangos y gyfran sy'n cael ei gwario ar blant, i ddangos blaenoriaethau, ac i ddyrannu cymaint ag y bo modd o'r adnoddau sydd ar gael (*"maximum extent of available resources"*).

Tynnwyd sylw at yr anhawster sydd ynghlwm wrth ganfod y swm a wariwyd ar wasanaethau cyhoeddus i blant yng Nghymru mewn ymchwil a wnaed gan Achub y Plant, *Cyfran Plentyn: Gwariant Cyhoeddus ar Blant yng Nghymru (2003).* Tynnwyd sylw pellach at gyllidebu ar gyfer plant yn Adroddiad yr *Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed* (Mai 2006), a oedd yn rhoi pwys ar yr angen hanfodol i ddatblygu sylfaen wybodaeth ariannol gadarn a chynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau plant.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddoli pa mor bwysig yw tryloywder, yn enwedig o ran galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o lunio polisi a gwasanaethau. Mae hefyd yn sylweddoli bod angen canfod ei gwariant ar blant a phobl ifanc a'i ddisgrifio'n fwy manwl. Fodd bynnag, tasg sylweddol fydd sicrhau tryloywder llwyr ym mhob rhan o lywodraeth genedlaethol a lleol yng Nghymru ac ni fydd ond modd gwneud hynny'n raddol dros nifer o flynyddoedd. Ym mis Mehefin 2006, cytunodd yr Is-bwyllgor Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc i fynd ati i glustnodi gwariant gan Lywodraeth y Cynulliad, a gwariant a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad ar wasanaethau a mentrau plant. Cafodd y canlyniadau eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor Cabinet ym mis Chwefror 2007, a byddant yn cael eu cyhoeddi gyda'r adroddiad hwn. Bydd goblygiadau strategol yr ymarfer hwn yn cael eu hystyried ymhellach gan Lywodraeth y Cynulliad yng ngoleuni'r cynnydd yn y pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a ddaw i rym ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2007.

Sefydliadau hawliau dynol annibynnol

Rhoddwyd canmoliaeth i Gymru gan Bwyllgor y CU am sefydlu Comisiynydd Plant annibynnol i Gymru. Yn yr adran hon, disgrifir rôl a chyflawniadau'r Comisiynydd Plant ers ei benodi yn 2001.

Comisiynydd Plant Cymru

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael Comisiynydd Plant annibynnol. Crëwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac estynnwyd cylch gwaith y swydd ymhellach gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Peter Clarke oedd y Comisiynydd Plant o 1 Mawrth 2001 hyd

ei farwolaeth ym mis Ionawr 2007. Fe'i penodwyd gan y Prif Weinidog ar ôl cael ei gyfweld gan blant, pobl ifanc ac Aelodau o'r Cynulliad. Ar hyn o bryd y Dirprwy Gomisiynydd sy'n cyflawni'r swydd hyd nes gellir penodi olynydd.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu fel eiriolwr annibynnol dros blant a phobl ifanc yng Nghymru. Ei brif nod yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru ac wrth wneud hynny mae dan ddyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y CU.

Mae ei swyddogaethau'n cynnwys:

- adolygu'r effaith ar blant a phobl ifanc o unrhyw weithgarwch neu weithgarwch arfaethedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw gorff cyhoeddus arall y mae ganddi gyfrifoldeb drosto, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd;
- adolygu gweithdrefnau cwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth;
- archwilio'n fanylach yn achos unrhyw blentyn neu blant neilltuol os yw'n ymwneud â mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru. Mae ganddo hawl i gael gwybodaeth, esboniadau a chymorth i ategu'r swyddogaeth hon, ac wrth ddilyn unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud o ganlyniad i archwiliad;
- llunio adroddiadau ac argymhellion;
- rhoi cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i eraill sy'n pryderu ynghylch eu hawliau a'u lles.

Gall ystyried a chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad am unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru, gan gynnwys rhai sydd heb eu datganoli.

Mae'r Comisiynydd yn gorff annibynnol statudol ac ef fydd yn penderfynu a ddylai arfer ei swyddogaethau ac ym mha fodd. Bydd yn ystyried ei ymgyngoriadau gyda phlant a phobl ifanc wrth wneud ei benderfyniadau.

Mae'r Comisiynydd wedi ymgymryd â nifer o adolygiadau ac archwiliadau ac wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

- *Codi'r clawr*: cyflwr toiledau ysgol y wlad;
- *Ond mod i'n cyrraedd yn sâff*: anelu at deithiau gwell a mwy diogel i'r ysgol;
- *Datgan Pryderon* - adolygiad o weithdrefnau cwynion, eiriolaeth a chwythu'r chwiban yn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;

- *Dydy plant ddim yn cwyno - y rhieni sy'n gwneud hynny* - adolygiad o weithdrefnau cwynion, eiriolaeth a chwythu'r chwiban mewn awdurdodau addysg lleol;
- *Clywch*: Adroddiad Archwiliad y Comisiynydd Plant i honiadau o gamdrin plant yn rhywiol mewn ysgol.

Clywch oedd Archwiliad statudol cyntaf y Comisiynydd, ac roedd yn dilyn achos a ddenodd lawer o sylw ynghylch honiadau o gamdriniaeth dros flynyddoedd lawer gan athro drama mewn ysgol yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion ar gyfer amddiffyn plant sy'n gweithio yn y cyfryngau a'r celfyddydau perfformio, yn ogystal â phlant mewn ysgolion. Yn ei Adroddiad Blynyddol yn Hydref 2005 rhoddodd y Comisiynydd ganmoliaeth i Lywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau eraill am eu gwaith wrth ymateb i argymhellion yr adroddiad.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal Dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, a chraffir arno hefyd mewn sesiwn arbennig ar y cyd o'r Pwyllgorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfiawnder Cymdeithasol, ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi dogfen ffurfiol yr *Ymateb i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant*, a gyhoeddir erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd hefyd yn cynnwys amcangyfrif o'i gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, y mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gytuno arno. Bydd manylion y gyllideb y cytunwyd arni yn cael eu cynnwys wedyn yn ymateb ffurfiol Llywodraeth y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo cyllid sylweddol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Plant bob blwyddyn. Mae ei chyllideb wedi codi dros y ddwy flynedd diwethaf o £1,400,000 yn 2004-05 i £1,636,000 yn 2006-07.

Mae'r Ymatebion a gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd Plant yn nodi sut y mae wedi gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd a phartneriaid eraill i ddelio â'r materion a godwyd ganddo yn ei adroddiadau a'i archwiliadau ac yn ei gyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion. Mae hynny wedi cynnwys, er enghraifft, gwaith ar weithdrefnau eiriolaeth a chwynion, a gweithredu argymhellion adroddiad Clywch ar amddiffyn plant.

Grŵp Monitro CCUHP

Sefydlwyd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn 2002. Caiff ei gynnull gan Achub y Plant (Cymru), ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cyrff gwirfoddol ac academyddion sy'n ymwneud â materion hawliau plant yng

Nghymru, ac o Draig Ffynci (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru). Bydd swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad a Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn bresennol hefyd fel sylwebyddion. Trefnodd y Grŵp gynhadledd bwysig ar hawliau plant yn Abertawe yn Ionawr 2006, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad. Bu Cadeirydd Pwyllgor y CU, y Gweinidog dros Blant yn Llywodraeth y Cynulliad, a Chomisiynydd Plant Cymru i gyd yn siarad yn y digwyddiad hwn, a greodd lawer iawn o ddiddordeb ledled Cymru. Bydd y Grŵp Monitro'n arwain y broses o baratoi "adroddiad amgen" Cymru ar gyfer Pwyllgor y CU yn 2007, gan ymhelaethu ar *Cywiro'r Cam: Realiti Hawliau Plant yng Nghymru*, a lansiwyd yn y gynhadledd yn Abertawe.

Casglu data

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid creu mecanweithiau i gasglu a dadansoddi data ar y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn, ac y dylid eu defnyddio i asesu cynnydd ar weithredu, ac i ddyfeisio polisïau sy'n seiliedig ar hawliau. Argymhellodd hefyd y dylid cael adroddiadau rheolaidd o Gymru.

Yn yr adran hon, nodir beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud, gyda'i phartneriaid, i ddatblygu set genedlaethol o ddulliau mesur canlyniadau ar gyfer hawliau plant, ac i asesu effaith ei pholisïau ar gyfer plant a pobl ifanc.

Datblygu Dulliau o Fesur Canlyniadau

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ddatblygu fframwaith canlyniadau. Bydd y fframwaith yn cynnig set gyffredin o ddulliau mesur a fydd yn hybu gwaith mewn partneriaeth a chynllunio ar y cyd, ac yn creu sylfaen i systemau integredig sengl ar gyfer monitro, gwerthuso ac archwilio. Gan fod y canlyniadau'n deillio o'r Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac yn ymgorffori dull sy'n seiliedig ar hawliau yn y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau, bwriedir iddynt gael eu defnyddio hefyd fel sail i fesur cynnydd ar weithredu hawliau plant a phobl ifanc.

Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu hefyd at y broses o ddatblygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid eu cael yn barod ar gyfer 2008-11. Mae'n cynnig cyfle i ddefnyddio'r Saith Nod Craidd fel disgrifyddion hawliau plant ac i egluro'r cysylltiadau rhwng hawliau neilltuol a nodau polisi blaenoriaethol. Mae'r dull o gasglu data dan ystyriaeth hefyd, a'r modd o sicrhau y gellir casglu barn plant a phobl ifanc yn effeithiol. Bydd y set gyntaf o ddulliau mesur yn cael ei defnyddio ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08 ac fe'i hadolygir yn rheolaidd ar ôl hynny i sicrhau ei bod yn parhau'n fanwl gywir.

Monitro a Gwerthuso

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod ei pholisïau a'i rhaglenni wedi'u seilio ar dystiolaeth a'u gwerthuso'n briodol. Rhai o'r cynlluniau diweddar sydd wedi'u gwerthuso yw cynllun Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc) a chynlluniau peilot yn y meysydd canlynol: Ymestyn Hawliau, Llwybrau Dysgu 14-19, Dechrau'n Deg, brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, Bagloriaeth Cymru, a'r Cyfnod Sylfaen mewn addysg. Yn ddiweddar, bu'r Gweinidogion yn ystyried cynigion i ffurfio prosiect o fwy nag un adran yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, i oruchwylio'r broses o ddatblygu dull o werthuso rhaglenni a pholisïau plant a phobl ifanc. Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut orau i wrando ar lais a phrofiadau pobl ifanc. Mae hyn yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion i wrando ar lais pobl fel rhan o Adolygiad Beecham o wasanaethau cyhoeddus.

Hyfforddiant a lledaenu

Un o brif ystyriaethau Pwyllgor y CU oedd yr angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau. Yn yr adran hon, nodir cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i ledaenu ymwybyddiaeth o Hawliau'r Confensiwn, y Saith Nod Craidd a'r 10 Hawl, ac i hybu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc yn fwy cyffredinol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hybu ymwybyddiaeth o'u hawliau ymysg plant a phobl ifanc wedi'i hyrwyddo'n bennaf drwy ei hagenda ar gyfranogi. Mae hawliau'n elfen ganolog yng ngwaith Draig Ffynci (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) ac yng ngwaith y Consortiwm Cyfranogiad (gweler Pennod 2 yn yr adroddiad hwn). Mae hawliau'n elfen allweddol hefyd mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion (gweler Pennod 6).

Er hynny, mae angen gwneud rhagor i hybu ymwybyddiaeth o Hawliau'r Confensiwn ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cynhyrchu cyfres o lyfrynnau i blant a phobl ifanc. Bydd y llyfrynnau wedi'u hanelu at blant iau (5-10) a phlant hŷn/pobl ifanc (11-18). Bydd grŵp cyfeirio'n dechrau ym mis Mawrth 2007 ar y gwaith o baratoi'r llyfrynnau hynny a strategaeth gyhoeddusrwydd a chyfathrebu i gyd-fynd â hwy.

Y Rhwydwaith Datblygu ar gyfer Gwasanaethau Cynghori a Gwybodaeth

Y Rhwydwaith Datblygu ar gyfer Gwasanaethau Cynghori a Gwybodaeth sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth i bobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys prosiect Clic. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a chyngor

i bobl ifanc. Mae'n gyfrifol am ganfod a rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol yn y cynlluniau hyn.

Prosiect Clic

Clic yw'r ail Brosiect Gwybodaeth a Chynghori Cenedlaethol i Bobl Ifanc 11-25 oed yng Nghymru. Dechreuodd yn Hydref 2004 ac ers hynny bu'n hybu ymwybyddiaeth o'r prosiect ac yn datblygu cynhyrchion gwybodaeth a chyngori newydd ar gyfer pobl ifanc. Bu pobl ifanc yn ymwneud â phenderfyniadau ar ddyluniad a chynnwys cynhyrchion y prosiect. Ar hyn o bryd, mae Clic yn ymgymryd ag ymarfer mapio o ganolfannau a ffynonellau gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

Mae Clic yn gweithio ar y cyd â siopau a darparwyr gwybodaeth lleol sy'n cael eu hariannu o amryw o ffynonellau, gan gynnwys Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc). Mae gwaith gwerthuso a wnaed gyda phobl ifanc 11-18 oed mewn ysgolion fel rhan o'r cynllun Ymestyn Hawliau wedi awgrymu'r canlynol:

- nododd mwyafrif y plant ysgol a gymerodd ran yn yr arolwg hwn fod lefelau eu mynediad at gymorth a chyngor personol cyfrinachol yn 'iawn'. Dywedodd cyfanswm o 31 y cant fod y mynediad yn 'rhwydd' neu'n 'rhwydd iawn' a nododd 20 y cant ohonynt eu bod yn profi anawsterau wrth gael mynediad at gymorth a chyngor personol cyfrinachol;
- nododd 52 y cant o'r bobl ifanc a holwyd yn yr arolwg eu bod yn ei chael yn 'rhwydd' neu'n 'rhwydd iawn' cael cymorth a gwybodaeth os oeddent wedi'u hanesmwytho ac arnynt angen siarad â rhywun. Nododd 22 y cant ohonynt eu bod yn profi anawsterau yn hyn o beth;
- dywedodd 51 y cant o'r bobl ifanc a holwyd yn yr arolwg eu bod yn ei chael yn 'rhwydd' neu'n 'rhwydd iawn' cael gwybodaeth iechyd am ddeiet a maethiad, atal cenhedlu ac iechyd rhywiol. Nododd 20 y cant ohonynt eu bod yn profi anawsterau yn y maes hwn.

Meithrin Gallu Ariannol ymysg Pobl Ifanc

Yn ystod 2006, comisiynodd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol brosiect peilot sy'n ymwneud â gallu ariannol a helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau. Rhoddwyd prawf ar CD-ROM, a gynhyrchwyd yn dilyn gwaith gyda phobl ifanc, yn ardal tri awdurdod lleol drwy leoliadau dysgu anffurfiol. Mae'r gwerthusiad o'r prosiect yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

POLISÏAU STRATEGOL ALLWEDDOL LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hyrwyddo amrywiaeth fawr o gynlluniau polisi, ym mhob maes lle y datganolwyd cyfrifoldeb iddi, sy'n cael effaith lesol ar hawliau plant a phobl ifanc. Mae rhai o'r prif strategaethau a rhaglenni wedi'u rhestru isod. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol, ac mae llawer o'r rhain yn cwmpasu mwy nag un portffolio.

- Deddf Plant 2004: creodd sail statudol newydd ar gyfer gweithio a chynllunio mewn partneriaeth, ac mae'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.

Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

- **Ymestyn Hawliau:** y polisi cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru, sy'n seiliedig ar 10 hawl sylfaenol; ac yn cael ei weithredu drwy amryw o brosiectau, gan gynnwys rhai sy'n seiliedig ar Erthygl 12 ar gyfranogi.
- **Y Wlad sy'n Dysgu:** y rhaglen strategol gyffredinol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes sy'n cwmpasu llawer o'r cynlluniau addysgol penodol sydd wedi'u nodi isod. Cyhoeddwyd Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith yn 2006, i bennu rhan nesaf yr agenda hon.
- **Strategaeth Gofal Plant Cymru - Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant:** mae'n ceisio datblygu ansawdd, maint a gallu'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.
- **Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc):** mae'n cynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd difreintiedig, drwy amryw o ymyriadau ataliol gan gynnwys cymorth i deuluoedd, hybu iechyd, cyfranogiad, gofal plant, gwasanaethau gwybodaeth plant, hyfforddiant a mentora, a chwarae.
- **Dechrau'n Deg:** cynllun sydd wedi'i dargedu ar rai 0-3 blwydd oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ymhlith yr ymyriadau sydd wedi'u cynnig y mae gofal plant o ansawdd da am ddim, gwasanaethau ychwanegol gan ymwelwyr iechyd, a rhaglenni rhianta.
- **Strategaeth Chwarae:** i weithredu'r Polisi Chwarae drwy ddatblygu darpariaeth chwarae ledled Cymru.

- **Strategaeth Sgiliau Sylfaenol:** mae'n darparu ar gyfer llythrennedd a rhifedd sylfaenol i rai o bob oed, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
- **Cyfnod Sylfaen:** ei amcan yw sicrhau addysg o ansawdd da yn y blynyddoedd cynnar i'r holl blant 3-7 mlwydd oed.
- **Llwybrau Dysgu 14-19:** mae'n trawsnewid ac yn ehangu'r dewisiadau a'r cyfleoedd ar gyfer rhai 14-19 blwydd oed; mae'n cynnwys llwybrau dysgu unigol sy'n diwallu anghenion y dysgwyr.
- **Ymgeisio yn Uwch:** Strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru: mae'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer addysg uwch gystadleuol a chynaliadwy yng Nghymru hyd at 2010; mae'n cynnwys mesurau i ehangu mynediad, denu a chadw myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a rhai sydd wedi'u tangynrychioli.
- **Polisi Cynhwysiant a Fframwaith Perfformiad:** mae'n sicrhau bod yr un cyfleoedd addysgol ar gael i bob disgybl, y caiff rhwystrau rhag cyflawniad eu dileu, ac y caiff disgyblion y cymorth y mae arnynt ei angen i wireddu eu potensial. Mae'n cynnwys gwaith ar anghenion addysgol arbennig, bwlio, a delio â dadrithiad ac ymddieithrio.
- **Cynllun Gweithredu Rhianta:** mae'n ceisio rhoi lle mwy amlwg i rianta yng Nghymru drwy nodi camau gweithredu allweddol i gynorthwyo rhieni a gofalwyr.
- **Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid:** gweledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ynghyd â chynllun gweithredu i alluogi gwaith ieuenctid i gyfrannu'n effeithiol at Ymestyn Hawliau.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth:** strategaeth 10 mlynedd sy'n gosod safonau cenedlaethol i wella ansawdd a lleihau gwahaniaethau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc.
- **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol:** strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, y cafwyd ymgynghori arni'n ddiweddar.

- **Busnes Pawb:** strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru.
- **Bwyd a Ffitrwydd - Hybu bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc yng Nghymru:** cynllun gweithredu 5 mlynedd i hybu ffyrdd iachach o fyw. Mae'n cynnwys targed ar gyfer cynnwys yr holl ysgolion yng Nghymru yng Nghynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru erbyn 2010.
- **Blas am Oes:** mae'n ceisio gwella ansawdd a safonau maeth bwyd ysgol.
- **Rhoi Plant yn Gyntaf:** rhaglen i wella canlyniadau bywyd plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n ymadael â gofal.
- **Eiriolaeth:** datblygu model newydd i ddarparu gwasanaethau eirioli mewn lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.
- **Strategaeth Iechyd Rhywiol:** i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn addysg rhyw a chydberthynas briodol, gwybodaeth, a mynediad i wasanaethau cynghori ar iechyd rhywiol.
- **Strategaeth Bwydo ar y Fron:** mae'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo bwydo ar y fron yng Nghymru er mwyn codi'r cyfraddau cychwyn a pharhau.

Cyfiawnder Cymdeithasol

- **Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Dlodi Plant:** mae'n nodi mesurau, targedau a cherrig milltir i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020.
- **Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan:** mae'n darparu fframwaith cenedlaethol i atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- **Cymunedau yn Gyntaf:** strategaeth dymor hir i wella amodau byw a rhagolygon y bobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn ceisio cynnwys pobl o bob oed yn y broses er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, meithrin sgiliau, cael gwelliannau ffisegol ac amgylcheddol, cynnydd mewn iechyd a lles a lleihau troseddu.
- **Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd:** mae'n cynnwys mesurau i atal ac i ddelio â digartrefedd ymysg pobl ifanc ac i roi sylw i anghenion plant digartref.

- **Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan:** dull gweithredu ar y cyd drwy asiantaethau i ddelio â chamdriniaeth yn y cartref yng Nghymru.
- **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid i Gymru Gyfan:** mae'n ceisio cynnig fframwaith clir ar gyfer pawb sy'n ymdrechu i gynnwys ffoaduriaid yng Nghymru, ac yn nodi camau gweithredu allweddol dros y tair blynedd o 2007 ymlaen.

Iaith, diwylliant a chwaraeon

- **Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog:** mae'n gosod targedau hyd at 2011 i greu mwy o ddefnydd a lle mwy amlwg i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd, gan gynnwys addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol.
- **Dringo'n Uwch: Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol:** i greu mwy o gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru; mae'n cynnwys cynllun nofio am ddim a rhaglen i greu mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol y tu allan i'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd. Mae'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion yn ceisio codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion ar gyfer yr holl bobl ifanc, a chyfrannu at wella lefelau iechyd a ffitrwydd.
- **Cymru Greadigol:** strategaeth ddiwylliant i greu mwy o fynediad a chyfleoedd i gael profiad o ddiwylliant i bobl ifanc.

Trafnidiaeth

- **Strategaeth Drafnidiaeth:** mae'n cynnwys prosiect cynlluniau teithio personol i bobl ifanc, a chynlluniau rhagbrofol sy'n cynnig tocynnau am hanner pris i rai 16-18 mlwydd oed. Cyhoeddir Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn 2007.
- **Llwybrau Diogel i'r Ysgol:** cynllun sy'n cynnwys 50 o brosiectau ledled Cymru sy'n hyrwyddo cyfleoedd i gerdded a seiclo i'r ysgol.

Pennod 2: Egwyddorion Cyffredinol

Erthygl 2 *Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn, heb wahaniaethu o unrhyw fath.* **Erthygl 3** *Dylai pob corff sy'n ymwneud â phlant ymdrechu i sicrhau'r hyn sydd orau i bob plentyn.* **Erthygl 6** *Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd.* **Erthygl 12** *Mae gan blant hawl i ddweud beth a ddylai ddigwydd yn eu barn hwy, pan yw oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael ystyriaeth i'w barn.*

Mynd i'r afael â gwahaniaethu

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cymryd camau i fonitro sefyllfa plant sy'n agored i wahaniaethu, gan gynnwys cymariaethau rhwng gwahanol rannau'r DU; ac y dylid cymryd camau neilltuol i ddileu pob math o wahaniaethu.

Er bod deddfwriaeth ar wrth-wahaniaethu a chyfle cyfartal yn parhau'n gyfrifoldeb i Senedd y DU yn San Steffan, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan ddyletswydd, dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ei swyddogaethau wedi'u harfer gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal *("with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people").* Rhaid iddo adrodd bob blwyddyn hefyd ar effeithioldeb y trefniadau hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio cyflawni hynny drwy egwyddor prif ffrydio. Yn 2005-06, cytunodd y Cabinet ar strategaeth prif ffrydio, sydd â'r bwriad o sicrhau, o 2007 ymlaen, y bydd gan bob Adran yn Llywodraeth y Cynulliad gynllun gweithredu cydraddoldeb, gydag amcanion blaengar a dulliau o fesur llwyddiant y gellir adrodd arnynt yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Gan ei bod yn gorff cyhoeddus, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (Mawrth 2005), Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (Rhagfyr 2006) a Chynllun Cydraddoldeb Rhywiol (Mawrth 2007). Mae pob cynllun yn cynnwys plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion.

Ymdrinnir â mesurau penodol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ymysg grwpiau lleiafrifol penodol drwy'r adroddiad hwn - er enghraifft, plant sipsiwn/teithwyr (tudalen 83), pobl ifanc hoyw a lesbiaidd (tudalen 53), a phlant anabl (tudalen 45). Mae prosiect Ymestyn Hawliau, sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau buddiant arbennig a rhai anos eu cyrraedd (tudalen 4).

Dau gynllun cynhwysfawr sydd â'r amcan o ddelio â gwahaniaethu hiliol yw:

- **Fforwm Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig**

  Lansiwyd y Fforwm Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig yn 2005, a'i amcan yw gwella dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o anghenion pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, a meithrin cytgord a goddefgarwch hiliol rhwng gwahanol grwpiau hiliol yng Nghymru. Mae wedi'i anelu at bobl ifanc 15 - 25 oed, ac mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu pryderon a'u barn am faterion sy'n berthnasol iddynt. Mae prosiect yn cael ei ddatblygu i hyrwyddo hynny, drwy gydweithio'n agos â'r rhwydweithiau presennol fel Draig Ffynci. Mae hefyd yn ceisio galluogi pobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i chwarae rhan lawn yn eu fforymau ieuenctid lleol.

- **Ymgyrch Croeso**

  Mae ymgyrch Croeso yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n gweithio ar sail y gofyn sydd yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) i hyrwyddo cysylltiadau da. Yn 2005-06, bu Croeso yn cydweithio'n agos â phlant a phobl ifanc ledled Cymru i feithrin cysylltiadau da yn yr holl gymunedau.

Buddiannau Gorau'r plentyn

Dan Erthygl 3 yn y Confensiwn, egwyddor buddiannau gorau'r plentyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth yn yr holl bolisi a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant. Un enghraifft o'r modd y mae'r egwyddor hon wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yng Nghymru yw drwy waith CAFCASS CYMRU.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) yn dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn achosion cyfraith teulu, yn enwedig mewn achosion gofal a phan fydd rhieni'n gwahanu neu'n ysgaru. Prif ddyletswyddau CAFCASS CYMRU yw:

- diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n gysylltiedig ag achosion llysoedd teulu;

- cynghori unrhyw lys ynghylch unrhyw gais a wneir iddo mewn achosion o'r fath;
- darparu ar gyfer cynrychioli plant mewn achosion o'r fath;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant a'u teuluoedd.

Mae gwaith CAFCASS CYMRU yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu Erthyglau 2 (gwrth-wahaniaethu), 3 (buddiannau gorau ac amddiffyn) a 12 (cyfranogi) yn y Confensiwn. Mae ei ymarferwyr, sy'n cael eu galw'n Gynghorwyr Llys Teulu, yn annibynnol ar y llysoedd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau tebyg, ac maent yn ddiduedd. Mae ganddynt gymwysterau gwaith cymdeithasol a phrofiad o weithio gyda phlant a theuluoedd. Bydd Cynghorwyr Llys Teulu yn cyfeirio'n aml at CCUHP ac yn dyfynnu ohono yn eu hasesiadau a'u hadroddiadau i'r llysoedd. Prif bwrpas eu hymyriadau yw helpu'r llys i ddod i benderfyniad a wneir er y budd gorau i'r plentyn yn unol ag Erthygl 3.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros CAFCASS yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004, gan roi cyfle i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o effaith gwahanu rhieni a chwalu teuluoedd, a'r gwasanaethau gwell sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi'u dal mewn amgylchiadau o'r fath.

Parch at farn y plentyn: Cyfranogi

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cymryd camau pellach ledled y DU i hyrwyddo cyfranogiad gan bob grŵp o blant mewn cymdeithas, ac i sicrhau y rhoddir pob ystyriaeth i'w barn. Yn yr adran hon, disgrifir rhywfaint o'r gwaith sylweddol a wnaeth Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo Erthygl 12 o Gonfensiwn y CU drwy osod esiampl ar ffurf arferion sy'n ymwneud â chyfranogi gan blant a phobl ifanc (0-25) y bydd cyrff eraill yn anelu at eu cyflawni.

Prosiect Cyfranogi Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn 2003 sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad ei phrosiect cyfranogi ei hun sydd â'r amcan o ymgorffori cyfranogiad gan blant a phobl ifanc fel rhan o'i phrosesau mewnol, gan osod esiampl drwy hynny y gallai cyrff eraill yng Nghymru yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddymuno ei dilyn.

Canolbwyntiodd y prosiect yn gyntaf ar recriwtio staff a phenodiadau cyhoeddus i swyddi allweddol sydd â chyfrifoldeb dros blant a phobl ifanc; caffael ac archwilio gwasanaethau perthnasol; a chynnwys plant a phobl ifanc 0-25 oed ym mhob agwedd ar y gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro polisi mewn cysylltiad â materion sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd sylweddol ers ei sefydlu ac, er nad yw eto wedi cwblhau'r tasgau a osodwyd iddo, mae wedi llwyddo i hybu ymwybyddiaeth ymysg llunwyr polisi cenedlaethol o bwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc yn gynnar yn y broses a'r budd y gellir ei gael o hynny.

Yn dilyn cystadleuaeth i blant a phobl ifanc, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu datganiad bachog i egluro ystyr cyfranogiad:

> "Mae cyfranogiad yn golygu fod gen i'r hawl i gael y cyfle i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r arolygu sy'n ymwneud â gweithgaredd a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis."

Draig Ffynci

Er mwyn hwyluso cyfranogiad, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gymorth i sefydlu'r Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru (sy'n cael ei alw'n Draig Ffynci) ac mae'n darparu cyllid ar ei gyfer. Mae Draig Ffynci yn gorff sy'n cael ei arwain gan gyfoedion sy'n cynnwys Uwch-gyngor o gynrychiolwyr o fforymau plant a phobl ifanc lleol a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cael eu harwain gan gyfoedion. Mae'n sicrhau bod barn plant a phobl ifanc 0-25 oed yn cael ei chlywed a'i hystyried yn y broses penderfynu, yn enwedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i sefydlwyd dair blynedd yn ôl ac mae'n un o'r prif fecanweithiau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu defnyddio i gael barn plant a phobl ifanc.

Gan ei fod yn cydnabod yr angen i sicrhau mwy o amrywiaeth, mae Draig Ffynci wedi neilltuo seddau ar ei Brif Gyngor ar gyfer wyth rhwydwaith buddiant penodol, yn cynnwys rhwydweithiau pobl ifanc anabl a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Os yw aelodau'r Prif Gyngor yn teimlo nad yw Draig Ffynci mor gynrychioladol ag y gallai fod, caiff gyfethol aelodau. Gan fod cynrychiolaeth o blith fforymau ieuenctid lleol, mae'r aelodau'n dod o amrywiaeth fawr o grwpiau cymdeithasol-economaidd.

Mae Draig Ffynci wedi dechrau ar ymchwil yn ddiweddar gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn adrodd ar y gweithredu ar eu hawliau. Bydd yr adroddiad, *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni*, yn seiliedig ar farn mwy nag 8,000

o bobl ifanc 11-18 mlwydd oed a 2,000 o blant 7-10 oed ledled Cymru am eu gallu i arfer eu hawliau. Caiff yr adroddiad terfynol ei lansio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Draig Ffynci yn haf 2008.

Y Consortiwm Cyfranogiad

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau cyfranogiad gan blant a phobl ifanc. Yn 2002, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i Achub y Plant Cymru sefydlu Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, a darparodd gyllid craidd ar gyfer Uned Gyfranogiad i hybu gwaith y Consortiwm. Mae'r Consortiwm yn grŵp aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff statudol a gwirfoddol ar gyfer plant a phobl ifanc a rhai o Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n rhannu syniadau ac arferion da ac yn hyrwyddo dull gweithredu cydgysylltiedig yng Nghymru.

Yn Ionawr 2007 lansiwyd safonau cenedlaethol newydd ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau.

Mae'r safonau yn nodi gofynion sylfaenol ar gyfer y modd y dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r meincnodau hyn yn ddull o archwilio ac asesu arferion cyfranogi. Maent yn hyrwyddo pethau fel rhoi cyfle i bob person ifanc leisio barn, waeth beth yw eu hamgylchiadau, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael budd o gymryd rhan a bod eu safbwyntiau yn cael eu cynnwys ac yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir. Mae'r safonau hefyd yn dweud y dylid darparu gwybodaeth ar ffurf sy'n hawdd i blant a phobl ifanc ei deall.

Ar hyn o bryd mae'r Safonau Gofynnol yn cael eu treialu gyda gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc er mwyn archwilio sut i fesur, casglu gwybodaeth a gweithredu'r safonau'n llwyddiannus ledled Cymru. Disgwylir y bydd y safonau hyn yn datblygu'n nod barcud a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Yn ddiweddar, bu'r Consortiwm yn mapio graddau'r cyfranogi gan blant a phobl ifanc mewn cyrff ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, ac mae wedi datblygu is-grwpiau aml-asiantaeth i hyrwyddo'r agenda ar gyfranogi mewn gwasanaethau addysg a hyfforddiant.

Prosiect Cyfranogi Llywodraeth y Cynulliad dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae Prosiect Cyfranogi Llywodraeth y Cynulliad wedi cael cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i hyrwyddo agweddau ar ei waith sy'n ymwneud â rhai 11-25 mlwydd oed yn gyflymach nag y byddai modd fel arall.

Mae'r prosiect yn ymdrechu hefyd i sicrhau bod dogfennau Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cynhyrchu mewn modd sy'n peri eu bod yn ddiddorol i blant a phobl ifanc, ac yn hawdd eu deall ganddynt, ac yn dangos yn glir yr effaith a gafodd plant a phobl ifanc ar y gwaith o'u cynhyrchu.

Mae tîm prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gweithio gyda phartneriaid hefyd i ragbrofi trefniadau cyfranogi yng Nghanolfan Ddiogel Hillside sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar ymgynghori a darparu gwybodaeth.

Prosiect Ymestyn Hawliau Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae'r prosiect ar Ymestyn Hawliau sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (gweler Pennod 1) hefyd wedi cymryd cyfranogiad yn un o'i themâu allweddol, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar gynnwys grwpiau buddiant arbennig a rhai anos eu cyrraedd.

Cynghorau Ysgolion

Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd wedi creu gofyniad statudol am gynghorau ysgolion, a daeth hynny i rym ar 1 Tachwedd 2006. Ymdrinnir ym Mhennod 6 â'r gwaith sylweddol i sicrhau llwyddiant cynghorau ysgolion, ynghyd â mesurau eraill i sicrhau cyfranogiad disgyblion.

Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy

Mae Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, a sefydlwyd ym mis Medi 2003, yn ceisio lledaenu gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu barn wrth y llunwyr penderfyniadau perthnasol. Yn ogystal â hynny, mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu cynaliadwy drwy rymuso pobl ifanc fel y gallant newid eu ffyrdd o fyw eu hun.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid i'r Fforwm er 2003. Fel rhan o'i weithgareddau, mae wedi cynnal gweithdy a digwyddiadau eraill mewn cynhadledd yng Nghaerdydd; wedi anfon cynrychiolydd i gynhadledd

ddiweddar yn Swmatra; wedi trefnu cynllun cyfnewid pobl ifanc gyda Libya; ac wedi cymryd rhan mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy.

Parch at farn y plentyn: eiriolaeth a chwynion

Gwaith arall sy'n berthnasol i Erthygl 12 (yr hawl i gael llais) yw'r hyn a wnaed i ddatblygu gwasanaethau eirioli a gweithdrefnau cwynion cyfeillgar i blant mewn amryw o leoliadau a gwasanaethau.

Cyflwynwyd safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eirioli yn 2002, a bellach mae gan yr holl awdurdodau lleol gytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr gwasanaethau eirioli sy'n cyrraedd y safonau hynny. Yn 2004, gwnaed rheoliadau a oedd yn rhoi hawl statudol i gael gwasanaeth eirioli i bob plentyn a pherson mewn angen sydd mewn lleoliad gofal cymdeithasol.

Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad grŵp gorchwyl yn 2002 i wneud argymhellion ar ddarparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yn y dyfodol. Ystyriodd y grŵp gorchwyl hwn yr argymhellion mewn tri adroddiad o bwys ar gam-drin plant ac amddiffyn plant (adroddiadau Utting, Waterhouse a Carlile), a'r rhai yn adroddiad y Comisiynydd Plant *Datgan Pryderon*. Bu'r grŵp yn ymwneud hefyd ag adolygiad o weithdrefnau cwynion plant.

Yn yr adolygiad o wasanaethau eirioli, canolbwyntiwyd ar gymorth a mesurau diogelu ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai sy'n derbyn gofal (yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal eu cartref); plant sy'n byw oddi cartref mewn ysgolion preswyl neu leoliadau eraill; plant mewn ysbytai a lleoliadau eraill dan ofal y GIG; a phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Cynhaliwyd tri ymarferiad:

- adolygiad o wasanaethau eiriolaeth a chwynion i blant a phobl ifanc a wnaed gan Brifysgol Caerdydd a ganfu fod y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli ledled Cymru'n anghyson ac yn anghyfartal.
- ymgynghoriad yn 2005 gyda mwy na 1,000 o blant a phobl ifanc ynghylch trefniadau ar gyfer cwynion gan blant mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, a wnaed drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol. Bu hyn yn sail i ddatblygu canllawiau ar drefniadau ar gyfer cwynion.

- ymgynghoriad gan Voices from Care, corff gwirfoddol cenedlaethol, ynghylch barn plant sydd yn y system gofal.

Roedd yr adborth yn amlygu'r angen i wella gwasanaethau eirioli ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, gyda chymorth Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol.

Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl ar Eiriolaeth ei argymhellion yn 2005. Roeddent yn cynnwys model â gwahanol haenau i ddarparu gwasanaethau eirioli yn yr holl leoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Y bwriad yn hyn o beth oedd symleiddio prosesau a chreu mwy o gydweithio rhwng cyrff darparu, yn unol â nodau Deddf Plant 2004; sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Cynigiodd fodel rhanbarthol cydweithredol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth plant, a ddylai ganiatáu mwy o annibyniaeth i ddarparwyr gwasanaethau eirioli oddi wrth gomisiynwyr gwasanaethau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y newidiadau sydd wedi'u cynnig, ac yn benodol ar y dull o ddatblygu'r gwasanaeth newydd arfaethedig, ac ar fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau eirioli i helpu unrhyw blentyn neu berson ifanc i wneud cŵyn.

Rhoddwyd cyllid o fwy nag £1.2 miliwn i gyrff allweddol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth plant: Barnardo's, Tros Gynnal, Voices from Care, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol. Rhoddwyd cyllid hefyd i awdurdodau lleol drwy raglen Rhoi Plant yn Gyntaf, i ymestyn gwasanaethau eirioli i gynnwys plant mewn angen.

Cyhoeddwyd canllawiau newydd ar systemau cwynion i blant sydd mewn gofal cymdeithasol yn Ebrill 2006, ac maent yn cynnwys yr hawl i blant gael mynediad at banel annibynnol os ydynt yn dymuno gwneud cŵyn.

Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar ddelio â chwynion sy'n ymwneud â disgyblion yn Hydref 2006. Mae'r rhain yn ychwanegol at y canllawiau a oedd ar gael eisoes i gyrff llywodraethu ar ddelio â chwynion. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynhyrchu taflenni gwybodaeth ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gwneud cŵyn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r trefniadau fel y gall plant a phobl ifanc wneud cŵyn am unrhyw wasanaeth iechyd. Ar hyn o bryd, dim ond am driniaeth a roddwyd mewn ysbyty y gellir cwyno.

CAFCASS CYMRU

Er fod ganddo drefniadau cyfranogi etifeddol ar ôl ei drosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae CAFCASS CYMRU yn datblygu ei Strategaeth Gyfranogi gynhwysfawr ei hun. Sefydlwyd dau grŵp cyfranogi peilot (ar gyfer rhai 5 i 15 oed). Mae'r grwpiau'n cyfrannu at ddatblygu taflenni gwybodaeth i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth ifanc am rôl staff penodol o fewn CAFCASS, am achosion llys, ac am gyfrifoldebau CAFCASS CYMRU. Mae'r grwpiau'n helpu hefyd i ddatblygu gwefan CAFCASS CYMRU ar y rhyngrwyd. Yn dilyn y prosiect peilot hwn, mae CAFCASS CYMRU yn bwriadu datblygu grwpiau cyfranogiad lleol pellach ledled Cymru.

Mae CAFCASS CYMRU hefyd yn datblygu protocolau gyda grwpiau eiriolaeth annibynnol yng Nghymru i helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut i fynd ynghylch gwneud cŵyn a sut i wneud ceisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Mae hefyd yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar sut i wneud ei bolisi a'i weithdrefnau cwynion ei hun yn fwy hygyrch. Mae pobl ifanc wedi cymryd rhan hefyd yn y gwaith o ragbrofi rhaglen gyfrifiadur ryngweithiol (Viewpoint), sy'n rhoi cyfle i'r defnyddwyr fynegi barn am wasanaethau CAFCASS CYMRU. Cafodd Viewpoint ei lansio yn Ionawr 2007.

Pennod 3: Hawliau Sifil a Rhyddid

Erthyglau 7 ac 8 *Mae gan bob plentyn yr hawl i gael enw a chenedligrwydd, i adnabod a (hyd y gellir) i gael gofal gan ei rieni, ac i gael parch at ei hunaniaeth*. **Erthygl 13** *Rhyddid barn*. **Erthygl 14** Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd. **Erthygl 15** *Hawl i gyfarfod â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chyrff*. **Erthygl 16** *Hawl i breifatrwydd*. **Erthygl 17** *Mae gan blant hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai'r teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunydd a allai niweidio plant.* **Erthygl 37(a)** *Mae gan blant hawl i beidio â chael eu harteithio neu eu trin neu eu cosbi mewn modd arall sy'n greulon, yn annynol neu'n ddiraddiol.*

Ataliadau a charchariadau unigol

Roedd gan Bwyllgor y CU bryderon penodol ynghylch y defnydd o ataliadau yn y ddalfa ac mewn sefydliadau addysg, iechyd a lles.

Nodwyd yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r defnydd o ymyriadau corfforol cyfyngol mewn lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn nogfen Llywodraeth y Cynulliad, *Fframwaith ar gyfer Polisi ac Arferion o ran Ymyriad Corfforol Cyfyngol (2005).* Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at asiantaethau statudol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion. Nid yw'n cynnig cyngor at dechnegau atal i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd penodol. Mater i'r cyrff eu hunain yw gwneud asesiad risg a llunio strategaeth i osgoi ataliadau, er mwyn canfod y tebygolrwydd y bydd person ifanc penodol yn amlygu ymddygiad peryglus a phennu ymateb effeithiol i hynny.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad ac Adran Addysg a Sgiliau'r DU yn trafod ymgynghoriad ar y cyd ar ddogfen arferion da, *Permissible Restrictive Physical Interventions with Children who Live Away from Home*.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar reoli risg ac ar dechnegau ymyrryd y cytunwyd arnynt, a bydd yn sail i ddiffiniad o'r defnydd o dechnegau atal "wyneb i lawr".

Cosbi corfforol

Roedd Pwyllgor y CU wedi croesawu'r ffaith bod, Llywodraeth y Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu rheoliadau a oedd yn gwahardd cosbi corfforol ym mhob math o ofal dydd, gan gynnwys gwarchod plant. Argymhellodd y dylid dileu amddiffyniad "cosb resymol", a hyrwyddo mathau o ddisgyblu sy'n gadarnhaol, yn gyfranogol ac yn ddi-drais.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud safiad egwyddorol yn erbyn cosbi plant yn gorfforol, ac mae'n cyd-weld â barn Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn y dylid gwahardd cosbi corfforol drwy'r gyfraith. Yn Hydref 2002, mewn Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU, roedd mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad o bob un o'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru wedi ategu'r farn honno. Drwy hynny, y Cynulliad oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y DU i arddel safbwynt pendant o'r fath.

Nid oes pŵer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd disgyblu corfforol. Mae hynny'n parhau'n gyfrifoldeb i Senedd y DU. Er hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno sylwadau ar sawl achlysur i Lywodraeth y DU am y pwnc hwn a hynny, yn fwyaf nodedig, yn ystod hynt y Ddeddf Plant yn 2004. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw at y mater hwn hefyd yn ei Adroddiadau Blynyddol.

Fel arwydd ymarferol o'i hymrwymiad, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu swydd gweithiwr prosiect yr ymgyrch 'Sdim Curo Plant! yng Nghymru am dair blynedd o 2004. Mae 'Sdim Curo Plant! yn darparu deunydd briffio a gwybodaeth i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus a hyrwyddo rhianta cadarnhaol, ac mae'n cyhoeddi enghreifftiau o ymarfer da wrth hyrwyddo dewisiadau yn lle curo. Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd wythnos *Help wrth Law* ragbrofol mewn cymuned leol mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf yn y De, i ymchwilio i ddulliau o gyfleu'r neges am beidio â churo i rieni a phlant. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid i werthuso'r cynllun peilot, ac mae'n gweithio gyda 'Sdim Curo Plant! i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu hefyd i hyrwyddo rhianta cadarnhaol, ac mae wedi cymryd camau i roi gwybod i rieni am ddewisiadau yn lle disgyblu corfforol, gan gynnwys:

- ymrwymiad yn Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan (Mawrth 2005) i bolisïau sy'n gwrthwynebu curo plant ac yn hyrwyddo dewisiadau yn lle disgyblu

corfforol. Mae'r Strategaeth yn ceisio gwella diogelwch menywod, plant a phobl ifanc, ac mae'n cydnabod y gall cosbi corfforol fod yn agwedd ar sefyllfaoedd lle y ceir cam-drin yn y cartref;

- hybu rhianta cadarnhaol drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta (Rhagfyr 2005), sy'n cynnwys Cam Gweithredu ar gyhoeddi llyfryn am ddewisiadau yn lle disgyblu corfforol, i'w ddosbarthu i'r holl rieni newydd gan ymwelwyr iechyd o 2007 ymlaen;

- cam gweithredu allweddol yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (Chwefror 2006) yn mynnu bod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer gwaith ar y cyd i gyflwyno addysg ar rianta sy'n hybu dulliau di-drais o reoli ymddygiad plant.

Pennod 4: Yr Amgylchedd Teuluol a Gofal Amgen

Erthygl 5 *Parch at gyfrifoldebau, hawliau a dyletswyddau rhieni a gwarcheidwaid i roi arweiniad a chyfarwyddyd priodol i'r plentyn.* **Erthyglau 9-11** *Gwahanu plant oddi wrth eu rhieni; hawl plant i fynd i mewn i wledydd neu eu gadael er mwyn ailuno teuluoedd, a throsglwyddo a pheidio â dychwelyd plant yn anghyfreithlon o wledydd tramor.* **Erthygl 18** *Y ddau riant sydd â'r prif gyfrifoldeb dros fagwraeth a datblygiad y plentyn. Mae'r Wladwriaeth i roi cymorth priodol i rieni wrth iddynt fagu plant, gan gynnwys gofal plant.* **Erthygl 19-21** *Amddiffyn plant rhag eu cam-drin, yr amddiffyniad a'r cymorth a roddir i blant na all eu teulu ofalu amdanynt, a mabwysiadu.* **Erthygl 25** *Mae'n rhoi hawl i blant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol i gael adolygiad rheolaidd o'u sefyllfa.* **Erthygl 27**, **paragraff 4** *Mesur i sicrhau y gellir adennill costau cynnal (Mae Erthygl 27 yn ymwneud yn gyffredinol â'r hawl i gael safon byw ddigonol).* **Erthygl 39** *Mesurau priodol ar gyfer adferiad ac ailintegreiddio rhai sydd wedi dioddef oherwydd esgeulustod, camdriniaeth, arteithio a brwydro arfog.*

Amddiffyn plant

Gwnaeth Pwyllgor y CU sawl argymhelliad i liniaru'r hyn y mae'n eu hystyried yn lefelau uchel o drais, camdriniaeth ac esgeulustod yn erbyn plant yn y DU. Yn yr adran hon, ymdrinnir â'r mesurau amddiffyn plant a roddwyd ar waith yng Nghymru er 2002, pan lansiwyd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Rhoddir crynodeb hefyd o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i ymchwiliad Clywch a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol ledled Cymru'n gyfrifol am amddiffyn plant, ac mae eu staff rheng flaen wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion camdriniaeth neu esgeulustod ac i gymryd camau yn eu cylch yn ddi-oed. Mae gwaith ar y cyd rhwng gwasanaethau'n hollbwysig os yw polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus ar draws awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd, yn y sector addysg, mewn heddluoedd ac yn y sector gwirfoddol.

Lansiwyd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn 2002. Lluniwyd y gweithdrefnau gan Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ledled Cymru. O 1 Hydref 2006, cafwyd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn lle Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig, *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*, ym mis Gorffennaf 2006. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda'r Byrddau Diogelu newydd, a chyda'r partner-asiantaethau sy'n cymryd rhan ynddynt, i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dal dan sylw ac yn aros yn gadarn, yn briodol ac yn effeithiol.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad Grŵp Swyddogion ar Fesurau Diogelu Plant sy'n cadw golwg yn gyffredinol ar bolisi ar fesurau diogelu a chysylltiadau â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau amddiffyn plant eraill. Mae hefyd wedi sefydlu grŵp ehangach (y Grŵp Mesurau Diogelu Plant), sy'n cynnwys aelodau o'r grŵp swyddogion ynghyd â chynrychiolwyr asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant. Drwy Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu grant penodol bob blwyddyn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant, i hyrwyddo datblygiad gwaith rhwng yr asiantaethau ym maes amddiffyn plant.

Cam-drin yn y Cartref

Mae'r canllawiau *Diogelu Plant* yn cynnwys adran ar gam-drin yn y cartref. Mae'r canllawiau'n datgan y dylai pawb sy'n gweithio gyda menywod a phlant fod yn effro i'r cydgysylltiad a geir yn aml rhwng cam-drin yn y cartref

a cham-drin ac esgeuluso plant. Dylent hefyd ystyried y goblygiadau i blant ar unrhyw aelwyd lle y mae tystiolaeth o gam-drin yn y cartref. Bydd yn aml yn briodol ystyried bod plant o'r fath yn blant mewn angen.

Mae canllawiau hefyd ar gyfer yr heddlu, sef y pwynt cyswllt cyntaf yn aml â theuluoedd lle y ceir cam-drin yn y cartref, ynghylch cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn neilltuol.

Mae plant sy'n dyst i gam-drin yn y cartref yn gallu cael budd o amryw o fathau o gymorth a gwasanaethau, ac mae rhai y bydd angen eu diogelu rhag niwed. Yn aml, mae'n debygol mai drwy estyn cymorth i riant nad yw'n defnyddio trais y gellir hyrwyddo lles y plentyn yn fwyaf effeithiol. Mae gan yr heddlu ac asiantaethau eraill bwerau penodol dan gyfraith trosedd a chyfraith sifil y gellir eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn y cartref.

Lansiwyd *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan* ym mis Mawrth 2005. Mae'r Strategaeth yn cyfleu neges glir am amddiffyn plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n dyst i drais. Mae'n cynnig fframwaith pwysig ar gyfer datblygu camau gweithredu lleol ac yn rhoi pwys ar yr angen am waith ar y cyd rhwng asiantaethau lle y gellir rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau.

Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed

Cynhaliwyd adolygiad pwysig o'r polisïau a'r arferion presennol ar gyfer diogelu plant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2005-06. Roedd adroddiad yr adolygiad, a lansiwyd ym Mai 2006, yn cynnwys 48 o 'heriau' a oedd yn cynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Y plant - datblygu cynlluniau i'w rhoi ar ganol datblygiadau o ran polisi a gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, a gwella trefniadau ar gyfer gwrando arnynt ac eirioli ar eu rhan.
- Y cyhoedd - ymdrin ag agweddau meddwl sy'n ymddangos yn ddryslyd ac yn groes mewn cysylltiad â phlant yn ein cymdeithas.
- Y gweithlu - gwella lefelau, sefydlogrwydd, hyder, cymhwysedd, cymorth a bodlonrwydd mewn swydd y rhai sy'n gweithio gyda phlant.
- Y systemau ffurfiol - eu gwneud yn fwy hwylus i blant, eu hariannu'n well ac yn fwy cyson a'u gwneud yn addas i'w diben.
- Y weledigaeth a'r strategaeth - datblygu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth integredig, hirdymor a sicr ar gyfer gwasanaethau cyson i blant sy'n agored i niwed.

- Y cyllid - adolygu, gwerthuso a rhesymoli cydbwysedd y buddsoddi mewn gwasanaethau i blant a chyfuno a sefydlogi ffrydiau ariannu.
- Y peryglon newydd - dod yn fwy effeithiol wrth ganfod ac ymateb i beryglon sy'n dod i'r amlwg mewn cysylltiad â phlant sy'n agored i niwed.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn holl argymhellion yr adroddiad, ac mae wedi nodi sut y bydd yn eu rhoi ar waith.

Clywch

Mae archwiliad Comisiynydd Plant Cymru i gyhuddiadau o gam-drin plant mewn ysgol (adroddiad *Clywch*) wedi arwain at roi mesurau ychwanegol sylweddol ar waith i amddiffyn plant mewn ysgolion, yn y cyfryngau ac yn y celfyddydau perfformio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rheoliadau newydd yn mynnu bod cyrff llywodraethu ysgol yn penodi ymchwilydd annibynnol yn achos yr holl gyhuddiadau yn erbyn staff ysgol sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant, ac yn mynnu y bydd aelod annibynnol nad yw'n llywodraethwr sydd â hawliau pleidleisio ar bwyllgorau cyrff llywodraethu sy'n ymwneud â disgyblu/diswyddo staff ac apelau yn erbyn disgyblu/diswyddo staff mewn achosion sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant. Er mwyn helpu cyrff llywodraethu, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu gwasanaeth ymchwilio annibynnol sydd ar gael yn rhad ac am ddim i gyrff llywodraethu;
- canllawiau ar *Rôl Cyrff Dyfarnu mewn perthynas ag Amddiffyn Plant* ac ar *Addysgu Drama: Canllawiau ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant i Reolwyr ac Ymarferwyr Drama*. Mae'r ddau'n berthnasol i'r DU gyfan, ac yn dilyn ymgynghori eang â phartneriaid allanol a mewnbwn gan arbenigwyr yn y maes.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar *Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwystra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg.* Mae'r rhain yn disgrifio'r gofyniad statudol i gyflogwyr roi adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad os ydynt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau rhywun ar sail ei anaddasrwydd i weithio gyda phlant, camymddwyn neu iechyd (os yw hynny'n ymwneud â diogelwch a lles plant).

Darparwyd cyllid hefyd ar gyfer cynllun Child Safe in Sport Wales. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i baratoi a dosbarthu pecyn gwybodaeth i drefnwyr chwaraeon a rhieni ar amddiffyn plant. Amcan y prosiect oedd pennu safonau cyson drwy'r wlad mewn meysydd fel hyfforddi, ymwybyddiaeth, monitro, adrodd ac ymchwilio.

Mae CAFCASS CYMRU yn cymryd camau priodol i amddiffyn plant rhag pob math o gamdriniaeth ac ymddygiad treisiol, camfanteisgar ac esgeulus posibl gan rieni a gofalwyr. Mae CAFCASS CYMRU wedi mabwysiadu Pecyn Cymorth a Pholisi ar Gam-drin yn y Cartref a bellach bydd ymarferwyr CAFCASS CYMRU yn sgrinio am faterion sy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref ac yn cynnal asesiad risg priodol. Mae CAFCASS CYMRU wedi llwyr ymrwymo i gadw at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a gofynion *Gweithio gyda'n Gilydd*. Mae'r rhain wedi'u hategu gan Weithdrefnau a Chanllawiau CAFCASS CYMRU ar Amddiffyn Plant, sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol i staff i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd ac yn cyfeirio unrhyw fater amddiffyn plant sydd heb ei benderfynu i'r asiantaethau ymchwilio priodol (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu).

Rhianta a gofal plant

Gwnaed llawer yng Nghymru ers datganoli i hyrwyddo'r gofyniad dan Erthygl 18 i lywodraeth ddarparu cymorth priodol i rieni wrth iddynt fagu plant. Mae'r adran hon yn ymwneud â gofal plant, rhianta, anghenion plant sy'n derbyn gofal, a phlant anabl a'u teuluoedd.

Strategaeth Gofal Plant Cymru

Cyhoeddwyd *Strategaeth Gofal Plant Cymru - Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant* ym mis Tachwedd 2005. Roedd yn seiliedig ar waith Gweithgor Gofal Plant, a adolygodd y trefniadau ar gyfer gofal plant yng Nghymru.

Nod y Strategaeth Gofal Plant yw:

- sicrhau bod pob math o ofal plant yn diwallu anghenion plant wrth iddynt ddatblygu;
- sicrhau bod gofal plant yn fforddiadwy a'i fod ar gael yn eang, fel y gall rhieni ddilyn hyfforddiant neu weithio ac felly codi lefelau gweithgarwch economaidd;
- darparu gofal plant fel y bydd hyblygrwydd a dewis ar gael i rieni o ran y modd y maent yn cydbwyso bywyd teuluol, gwaith ac ymrwymiadau eraill, gan hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle drwy hynny.

Mae'r Strategaeth Gofal Plant yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, drwy roi dechrau da iddynt a hybu dysgu a datblygiad iach yn eu plith. Bydd yn codi teuluoedd allan o dlodi drwy gynnig cyfleoedd newydd i rieni gael hyfforddiant a gwaith.

Mae'r cyfrifoldeb dros gyflawni'r amcanion hyn wedi'i rannu rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am y system credydau treth ac am fudd-daliadau i rieni, sef y modd pwysicaf i beri bod gofal plant yn fforddiadwy i lawer o rieni sydd mewn gwaith. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amryw o fathau o gymorth i helpu darparwyr gofal plant gyda chostau cychwyn a chynaliadwyedd. Mae awdurdodau lleol yn arwain wrth ddatblygu gofal plant ar lefel leol, gan weithio ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid lleol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar Ddeddf Gofal Plant 2006, a fydd yn rhoi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol o ofal plant yn eu hardaloedd, ac i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i rieni am ofal plant a gwasanaethau plant eraill. Daw'r dyletswyddau hynny i rym yng Nghymru yn Ebrill 2008. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddeunyddiau hysbysebu i annog mwy o bobl i dderbyn Credyd Treth Gwaith.

Mae gofal plant yng Nghymru wedi ehangu'n sylweddol ers yr adroddiad diwethaf i Bwyllgor y CU. Er 1999, mae nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig wedi codi o 54,603 i fwy na 67,711. Cododd nifer net y lleoedd gofal plant cofrestredig i blant dan 8 oed bron 18,500 rhwng Mawrth 1999 a Mawrth 2005. Yn ogystal â hynny, mae lle ysgol hanner amser am ddim ar gael i'r holl blant tair blwydd oed yng Nghymru os yw eu rhieni'n ei ddymuno.

Er mwyn hyrwyddo'r Strategaeth ymhellach mae Llywodraeth y Cynulliad wedi:

- sicrhau £12.5 miliwn dros dair blynedd o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer rhaglen **Genesis Cymru**, sy'n darparu gofal plant mewn ardaloedd Amcan 1 ac Amcan 3;

- neilltuo adnoddau sylweddol ar gyfer cynllun **Dechrau'n Deg** newydd ar gyfer y plant ieuengaf mewn ardaloedd difreintiedig. Mae Dechrau'n Deg wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r DU a gwledydd tramor am y modd gorau o gynorthwyo plant yn eu blynyddoedd cyntaf, yn enwedig y rhai sy'n wynebu tlodi. Mae'n ceisio darparu gofal plant rhan amser am ddim o ansawdd da ar gyfer plant dwy flwydd oed, a chreodd ddarpariaeth ychwanegol â chyllideb o £31 miliwn yn 2007-08. Yn ogystal â hynny, bydd Dechrau'n Deg yn hybu darpariaeth ychwanegol gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni i hyrwyddo rhianta;

- neilltuo cyllid ychwanegol ar gyfer **Cymorth** (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc), y mae rhan ohono wedi'i glustnodi ar gyfer gofal plant. Er 2003, Cymorth fu'r brif sianel i gyllid Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae'r Strategaeth Gofal Plant hefyd yn atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio a sicrhau ansawdd ar gyfer gwarchod plant yng Nghymru. Crëwyd sail gyson ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gwarchod plant i Gymru gyfan am y tro cyntaf yn 2002, pan sefydlwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r fframwaith rheoleiddio'n sicrhau bod plant yn ddiogel, bod contractau clir gan rieni a bod cymorth ar gael iddynt pan fydd problemau'n codi, a bod y profiadau a gaiff plant mewn gofal yn cyrraedd safon ansawdd sylfaenol. Yn fwy na dim, mae'r Arolygiaeth Safonau Gofal wedi rhoi profiad y plentyn ar ganol y broses reoleiddio.

Mae'r Strategaeth yn ymdrin yn benodol â'r angen am ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Rhai o'r camau gweithredu penodol a nodir yw pennu llinellau sylfaen a monitro'r cynnydd ar ddarparu lleoliadau gofal plant Cymraeg a dwyieithog, a chomisiynu ymchwil weithredu annibynnol i ganfyddiadau rhieni o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru o ofal plant ffurfiol a'u defnydd ohono.

Cynllun Gweithredu Rhianta

Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ei Chynllun Gweithredu Rhianta cyntaf yn Rhagfyr 2005. Mae'n ymestyn dros dair blynedd hyd Fawrth 2008, ac yn ceisio:

- sicrhau mwy o sylw i rianta ymysg llunwyr polisi a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru;
- hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n cynorthwyo mamau, tadau a gofalwyr;
- pennu camau gweithredu allweddol i'w cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad i hybu rhianta yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys y camau gweithredu allweddol isod:

- sefydlu llinell gymorth ddwyieithog, â chanolfan yng Nghymru (yn ystod 2007) i gynnig gwybodaeth gyfrinachol am ddim dros y ffôn i rieni a'u cyfeirio at ffynonellau cyngor a chymorth yn eu hardal;
- darparu llyfrynnau gwybodaeth i rieni newydd sy'n rhoi pwys ar dechnegau rhianta cadarnhaol. Mae'r holl rieni yng Nghymru'n cael dau gyhoeddiad, *Naw Mis a Mwy* ac Y *Blynyddoedd Cyntaf*, sy'n

cynnig arweiniad cyflawn i feichiogrwydd a geni plant, bod yn rhiant a'r pum mlynedd cyntaf ym mywyd y plentyn. I ategu hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r prif gorff gwirfoddol i blant yng Nghymru (Plant yng Nghymru), wedi cynhyrchu dau lyfryn ar rianta cadarnhaol, un ar gyfer rhieni plant 0-5 oed a'r llall i rieni rhai 5-10 oed. Bydd llyfryn pellach ar gael, sy'n ymdrin yn benodol â dewisiadau yn lle cosbi corfforol, o Ebrill 2007;

- cyllid ychwanegol i wasanaethau rhianta lleol. Eglurwyd mewn canllawiau i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn 2006-07 fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl iddynt ddyrannu rhywfaint o'r cyllid grant ychwanegol i gronfa Cymorth at wasanaethau rhianta. Dyrannodd y partneriaethau £2.4 miliwn yn ychwanegol at gymorth i deuluoedd yn eu cynlluniau ar gyfer 2006-07, sef 74 y cant yn fwy nag yn 2005-06;

- cymorth i raglenni rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cynhyrchwyd arolwg llenyddiaeth o raglenni rhianta ar y cyd â Dechrau'n Deg a'i ddarparu i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, i'w helpu wrth iddynt benderfynu ym mha raglenni y byddent yn buddsoddi. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi hefyd yn 2006-07 mewn hyfforddiant dan Raglen Hyfforddi Rhieni'r Blynyddoedd Anhygoel, fel bod mwy o Bartneriaethau lleol ledled Cymru'n gallu cyflwyno'r rhaglenni rhianta llwyddiannus hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ceir buddsoddi pellach yn 2007-08 i werthuso rhaglenni rhianta eraill sy'n rhedeg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo cyfleoedd i fagu plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'i tharged (sydd wedi'i nodi yn *Iaith Pawb*) i gynyddu canran y teuluoedd lle y mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng rhieni a phlant yn y cartref erbyn 2011. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn ariannu dau gynllun sydd wedi'u hanelu at rieni. Mae prosiect *Twf* yn ceisio annog rhieni newydd i siarad Cymraeg gyda'u plant ac yn egluro manteision dwyieithrwydd. Mae *Cylchoedd Ti a Fi* (sy'n cael eu rhedeg gan Mudiad Ysgolion Meithrin) yn cynnig cyfle i rieni chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae iechyd a lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn parhau'n flaenoriaeth uchel, ac yn faes sy'n peri pryder, i Lywodraeth y Cynulliad. Mae tystiolaeth yn awgrymu, yn achos plant sy'n derbyn gofal

yn gyffredinol, fod y gwelliannau a ddymunir drwy ymyriadau ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn dal i fod heb eu gwireddu.

Rhai o'r materion sy'n peri pryder yw:

- nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli filltiroedd lawer oddi wrth eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cymunedau, a hynny'n aml heb gyflawni gofynion statudol ar gyfer hysbysu neu gynllunio gofal yn ddigonol;
- yr amharu ar lawer o leoliadau oherwydd dewis gwael o ran lleoliad a/neu baru;
- ansawdd gofal anghyson mewn cartrefi plant (fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar gyfer 2005) ac anghysondeb o ran gwerth am arian;
- mwy o anghenion iechyd na'u cyfoedion. Er cyflwyno darpariaethau cyfreithiol er 1991 i fynnu y gwneir asesiad iechyd, mae plant sy'n derbyn gofal yn llai tebygol o gael gofal digonol;
- mae eu canlyniadau addysgol yn dal i fod yn annerbyniol o isel, yn enwedig yn achos plant sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi preswyl.

Cafwyd rhai gwelliannau drwy amcanion penodol y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf er 1999, ond mae'r canlyniadau'n dal i fod yn wael. Mae penodi nyrsys a enwebwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a newidiadau mewn arferion er mwyn caniatáu i ymarferwyr iechyd eraill ymgymryd ag asesiadau, yn ychwanegol at ymarferwyr meddygol cyffredinol, wedi peri bod mwy'n ymgymryd ag asesiadau iechyd a bod plant a phobl ifanc yn fwy parod i ymwneud â gwasanaethau iechyd cyffredinol a rhai arbenigol i blant sy'n derbyn gofal.

Ym Mawrth 2006, pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad o blaid pecyn o fesurau i ddiwallu anghenion cyfannol plant sy'n derbyn gofal ac i wella eu hiechyd a'u lles. Yr amcan a geisir, drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, yw atgyfnerthu trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer lleoli plant ac adolygu achosion ar ôl hynny, a sicrhau bod iechyd a lles ac anghenion addysgol y plentyn yn brif ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o orfodaeth ar bartneriaid statudol ym maes iechyd ac addysg i hyrwyddo iechyd a lles ac addysg plant sy'n derbyn gofal. Y prif nod yw sicrhau y gwneir penderfyniadau ar sail 'buddiannau gorau' y plentyn, yn unol ag Erthygl 3 o Gonfensiwn y CU. Mae'r cynigion yn

ceisio sicrhau bod lleoliadau mor agos ag y bo modd i gartref y plentyn (oni bai fod ystyriaethau pwysicach o ran risg neu les), a'u bod yn cael eu cyd-drefnu rhwng asiantaethau a'u darparu gan weithwyr allweddol sydd wedi'u henwi.

Ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ar y cynigion sydd wedi'u disgrifio isod yn hydref 2006, yn y ddogfen *Tuag at Fywyd Sefydlog* a *Dyfodol Llewyrchus*. Daw'r cynigion hynny i rym yng Ngorffennaf 2007.

Ymhlith y cynigion y mae:

- Gofyniad i awdurdodau lleol sy'n dymuno lleoli plentyn y tu allan i'w hardal ymgynghori'n gyntaf â phanel o bobl allweddol sydd â chyfrifoldeb dros les y plentyn. Bydd yn ofynnol i'r panel ystyried a yw'r lleoliad yn briodol ac er y budd gorau i'r plentyn. Rhaid i'r panel ystyried amodau sydd wedi'u rhagnodi fel rhai ar addysg arbennig neu anghenion iechyd. Yn benodol, bydd y canllawiau'n rhoi pwys ar y rheidrwydd i awdurdodau lleol a'u partneriaid ym maes iechyd roi ystyriaeth i'r angen am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Gwneir trefniadau ar gyfer cofnodi lleoliadau'n well hefyd.

- Bwriedir pennu, drwy reoliadau, safonau gofynnol ar gyfer cymwysterau staff a rheolwyr mewn cartrefi plant. Rhaid i gartrefi plant gofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac, wedi i'r newidiadau arfaethedig ddod i rym, ni fydd unrhyw gartref plant yn gallu cofrestru os nad yw'r staff yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol. Bydd yn ofynnol i gartrefi plant cofrestredig benodi person dynodedig i gydweithio â gweithiwr cymdeithasol y plentyn a chyda'r nyrs benodedig a'r cydgysylltydd addysg i sicrhau y cedwir at gynllun y plentyn ac i hyrwyddo iechyd ac addysg y plentyn.

- Newidir trefniadau'r comisiynydd cyfrifol ar gyfer gwasanaethau iechyd arbenigol i blant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal eu hawdurdod. Ar ôl cyflwyno'r newidiadau, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ardal yr awdurdod lleol sy'n lleoli'n gyfrifol am ariannu triniaeth y plentyn fel y mae wedi'i nodi yn y cynllun gofal. Yn ogystal â hynny, bydd yn sicrhau bod y plant mwyaf anghenus yn cael budd o wasanaeth sydd wedi'i ariannu a bydd yn lleihau'r gwrthdaro a'r oedi rhwng asiantaethau wrth gytuno ar becynnau gofal.

- Wrth i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gyflawni eu dyletswyddau i gydweithredu, bydd yn ofynnol iddynt enwebu personau dynodedig, y mae'n rhaid iddynt fod yn weithwyr

proffesiynol addas (nyrs/athro) i gyd-drefnu'r ddarpariaeth iechyd ac addysg rhwng asiantaethau ac i hyrwyddo cyflawniadau gan blant sy'n derbyn gofal.

- Ehangu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer asesiadau iechyd fel bod nyrs gofrestredig yn cael cynnal asesiadau cychwynnol dan oruchwyliaeth Ymarferwr Meddygol Cyffredinol Cofrestredig, ac i fynnu asesiadau amlach os yw lles y plentyn yn gofyn hynny. Yn ogystal â hynny, bydd yn ofynnol i gyrff iechyd sy'n bartneriaid sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal o'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol yn cael eu cofrestru gydag Ymarferwr Cyffredinol a bod proses gadarn ar eu cyfer i ddarparu hysbysiadau a throsglwyddo cofnodion iechyd. Atgyfnerthir y trefniadau hefyd i sicrhau bod anghenion iechyd ac addysg y plentyn wedi'u diwallu pan fydd yn gadael gofal.

Rhaid ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun mesurau mwy cyffredinol a gyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r ymrwymiad i ddatblygu strategaethau atal i ganiatáu ymyriadau cynnar i leihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal. Ymhlith y rhain, bydd camau i sefydlu'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a fydd yn gwella'r broses o ganfod lleoliadau ac yn gwella sgiliau comisiynu. Bydd Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o gymorth i wella perfformiad awdurdodau lleol fel y bydd y monitro a'r arolygu manylach ar berfformiad gwasanaethau sydd wedi'u rheoleiddio. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau'r dyfodol yn rhoi pwys ar ddiwallu anghenion yn gynnar fel na fydd angen ymyriadau mwy dwys yn ddiweddarach.

Ymdrinnir â mesurau i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ym Mhennod 6.

Plant anabl a'u teuluoedd

Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd fu un o flaenoriaethau'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf, sy'n ceisio sicrhau bod plant anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu byw gyda'u teuluoedd a defnyddio gwasanaethau lleol i fodloni eu hanghenion. Ceir cydnabyddiaeth i'r angen i wella gwasanaethau i blant anabl (yn enwedig wrth drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion) yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol *(Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol)*.

Mae safonau penodol ar gyfer plant anabl wedi'u pennu hefyd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (gweler Pennod 5 isod), gan gydnabod bod gan blant anabl a'u teuluoedd yr un hawliau i gael cyfleoedd, profiadau bywyd a gwasanaethau cymunedol a phrif ffrwd ag sydd gan blant eraill a'u teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer gwaith cyrff gwirfoddol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynrychioli amryw o grwpiau anabl. Yn benodol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu gwaith Ymddiriedolaeth y Gronfa Deuluoedd yng Nghymru a roddodd gymorth i fwy na 3,000 o deuluoedd sydd â phlant anabl yn 2005-06.

Ym mis Medi 2005, cyflwynwyd deddfwriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad a oedd i bob pwrpas yn dileu'r gofyniad am brawf modd ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl i rieni plant anabl. Croesawyd y newid hwn yn frwd gan rieni a grwpiau ymgyrchu, a bydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau diweddaraf ac mewn deunydd cyhoeddusrwydd.

Pennod 5: Iechyd a Lles Sylfaenol

Erthygl 6 *Hawl i fywyd, a sicrhau i'r graddau mwyaf posibl bod y plentyn yn goroesi ac yn datblygu.* **Erthygl 18, paragraff 3** *Mesurau i sicrhau bod plant i rieni sy'n gweithio'n cael gofal plant a chyfleusterau.* **Erthygl 23** *Hawliau plant anabl. Erthygl 24 Hawl i fwynhau'r safon iechyd orau y gellir ei chyrraedd. Erthygl 26 Hawl i gael budd o nawdd cymdeithasol.* **Erthygl 27, paragraffau 1-3** *Hawl i safon byw ddigonol.*

Mynediad i wasanaethau iechyd

Mynegodd Pwyllgor y CU bryder ynghylch yr anghydraddoldebau sy'n parhau o ran iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig mewn perthynas â statws cymdeithasol-economaidd ac ethnigrwydd. Roedd hefyd yn bryderus am fod y gyfradd hunanladdiad ymysg plant yn dal i fod yn uchel.

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, y Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, a chynlluniau eraill sydd â'r amcan o ddelio ag anghydraddoldebau iechyd ymysg plant. Mae hefyd yn trafod hunanladdiad ymysg plant a marolwaethau ymysg babanod.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

Lansiwyd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth ym Medi 2005. Mae'n nodi ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i'w derbyn. Mae'r safonau a'r camau gweithredu allweddol sy'n eu hategu wedi'u seilio ar Gonfensiwn y CU ac ar Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y gwaith o weithredu'r FfGC yn her fawr i Lywodraeth y Cynulliad dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r FfGC yn strategaeth 10 mlynedd sy'n gosod safonau cenedlaethol i wella ansawdd a lleihau gwahaniaethau yn y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y gall Cymru gyrraedd y safonau hynny drwy bartneriaeth a chydweithredu rhwng cyrff, fel y gall cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau weithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cwmpasu iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a thrafnidiaeth. Mae hyn yn galw am gydweithredu agos rhwng yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i blant. Mae'r ddogfen wedi'i hysgrifennu yn y fath fodd fel y bydd y gwasanaethau wedi'u seilio ar y plentyn/person ifanc a'i deulu, er mwyn hyrwyddo gweithio a chynllunio aml-asiantaeth.

Bu'r gwaith o ddatblygu'r FfGC yn broses gynhwysol a oedd yn cwmpasu gweithwyr proffesiynol ym mhob maes mewn gwasanaethau plant yn ogystal â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cynhyrchwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer pobl ifanc hefyd i alluogi pobl ifanc i helpu i lunio'r gwasanaethau y byddent yn hoffi eu derbyn.

Bydd y cynnydd ar weithredu'r safonau'n cael ei fonitro a'i werthuso ar lefel leol a lefel genedlaethol. Ymhlith y trefniadau y mae rhai i ddatblygu offeryn archwilio ar gyfer hunanasesu ar y we, i'w ddefnyddio gan bartneriaethau lleol wrth bennu'r cynnydd a gafwyd ar weithredoedd y FfGC. Sefydlwyd Gweithgor Gweithredu, sy'n cael ei gydgadeirio gan Bennaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Penodwyd Rheolwr Cymorth Gweithredu i sicrhau y ceir trosolwg a chyfeiriad strategol parhaus wrth roi'r FfGC ar waith ac i hyrwyddo'r broses o newid sy'n ofynnol yn y 3-5 mlynedd cyntaf.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo adnoddau ar gyfer nifer o strategaethau a pholisïau a fydd yn cyfrannu at weithredu'r FfGC. Mae'n disgwyl i bartneriaid lleol roi'r FfGC ar waith drwy ganfod a gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael, gan alluogi staff rheng flaen a rheolwyr i gydweithio i gyrraedd amcanion cyffredin heb ddyblygu gwaith.

Prosiect Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc

Mae'r prosiect hwn, a ddechreuodd yn Awst 2003, yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal ac ansawdd mewn cysylltiad â gwasanaethau arbenigol i blant sy'n byw yng Nghymru (er enghraifft, gwasanaethau gofal critigol, gofal lliniarol, llawdriniaeth blastig a llosgiadau, gwasanaethau anadlol). Mae'n ceisio datblygu safonau ar gyfer gwasanaethau arbenigol drwy sefydlu Rhwydweithiau Clinigol a Reolir a datblygu modelau gwasanaeth sy'n

effeithiol, yn ddiogel ac o ansawdd da. Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi cymryd rhan wrth ddatblygu'r safonau, ynghyd â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol o'r sector gwirfoddol.

Mae'r gwaith hwn wedi mynd rhagddo'n dda wrth i safonau a modelau gwasanaeth gael eu datblygu gan Weithgorau Allanol. Lansiwyd tair dogfen ymgynghori yn 2005. Mae'r ymatebion iddynt yn cael eu hadolygu, a chaiff y safonau terfynol eu lansio yn 2007. Lansiwyd dogfennau ymgynghori ar bedwar gwasanaeth pellach yng Ngorffennaf 2006, ac mae'r gwaith ar y 10 gwasanaeth olaf yn mynd rhagddo.

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed

Yn 2001, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad *Busnes Pawb*, ei strategaeth 10 mlynedd i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru.

Ymdrinnir ag iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc fel un adran yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth. Mae'r FfGC yn cynnwys camau gweithredu allweddol penodol a mesuradwy ar gyfer darparu gwasanaethau aml-asiantaeth ar draws Haenau 1 i 4 sydd â chysylltiad agos â *Busnes Pawb*.

Y polisi presennol yw y bydd y plant a'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal a throseddwyr ifanc, yn cael mynediad i wasanaethau ymatebol a chyfartal o ansawdd uchel ar sail eu hanghenion. Mae'r polisi hwn wedi arwain eisoes at sefyllfa lle y mae troseddwyr ifanc a phlant sy'n derbyn gofal yn cael lefelau mynediad uwch o lawer i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed na'r hyn sydd ar gael i'r boblogaeth gyffredinol (tystiolaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac o arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol *The Mental Health of Children Looked After by Local Authorities in Wales*, 2002-03).

Darparwyd £1.2 miliwn o gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn 2004-05 ar gyfer:

- darparu gwelyau ar gyfer rhai yn eu glasoed y mae angen eu derbyn ar frys;
- datblygu Gwasanaeth Ymgynghori Fforensig y Glasoed newydd (sefydlwyd gwasanaeth newydd yng Nghymru - fe'i datblygir gyda dau dîm a gomisiynwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru - un ar gyfer y De, y Canolbarth a'r Gorllewin ac un ar gyfer y Gogledd);
- datblygu swyddi ar gyfer Gweithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol;

- helpu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol lleol i weithredu *New Ways of Working in Mental Health.* Mae hyn yn cynnig modd iddynt wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ddewis y dulliau sydd orau yn eu barn hwy ar gyfer eu hardal ac mae'n caniatáu iddynt wneud y defnydd gorau o adnoddau a lleihau'r pwysau sydd ar uwch staff yn yr holl ddisgyblaethau i ryw raddau.

Darparwyd £1.4 miliwn o gyllid amseroedd aros untro yn 2005-06 i helpu i ddatblygu Rhwydweithiau Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Rhanbarthol i'r GIG, ac i gyrraedd y targedau a osododd Llywodraeth y Cynulliad yn y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid ar gyfer 2005-06 a 2006-07. Dyrannwyd £600,000 o gyllid achlysurol ar gyfer Rhwydweithiau Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn 2006-07, ar sail canlyniadau mesuradwy.

Mae'r defnydd o arian mynediad y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid yn gysylltiedig â:

- gwella cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u prisio;
- datblygu'r Rhwydweithiau Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Rhanbarthol;
- cyflawni rhan gyntaf y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid erbyn diwedd Mawrth 2006;
- cyflawni ail ran y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid yn 2007.

Darparwyd cyllid hefyd i Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Bangor (2003-04 hyd 2005-06) i ddatblygu modiwl aml-ddisgyblaeth ar lefel diploma i fodloni anghenion nyrsys a disgyblaethau eraill sy'n gweithio ym maes Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Erbyn hyn, mae o leiaf 27 o Weithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant a'r glasoed yn bennaf. Mae'r lefel hon yn weddol debyg i lefel y nifer o swyddi i weithwyr o'r fath yn Lloegr, yn ôl gwybodaeth a gafwyd gan gymdeithas broffesiynol y Gweithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol. Mae hefyd yn uwch na'r gymhareb am nifer y swyddi yn ôl poblogaeth a gynigiwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2004-05.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori yn 2007 ar Strategaeth Genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cynghori mewn ysgolion. Ei hamcan fydd creu gwasanaeth cynhwysfawr ledled Cymru a fydd ar gael i ddisgyblion. Bydd hyn yn fodd i gyflawni llawer o'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a hefyd i ymateb i argymhelliad

penodol gan ymchwiliad Clywch. Mae bwriad hefyd i ddarparu canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid ar arferion da wrth hybu iechyd emosiynol mewn lleoliadau addysg.

Cynhelir adolygiad o'r gweithredu ar *Busnes Pawb* yn ystod 2007. Bydd yn adolygu'r cynnydd a'r canlyniadau hyd yma, ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r Strategaeth. Yn ogystal â hynny, bydd yr adolygiad yn fodd i werthuso llwyddiant y polisi presennol mewn cysylltiad â phlant sy'n agored i niwed a'i addasu os yw hynny'n briodol.

Hunanladdiadau ymysg plant

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried bod marwolaeth plentyn neu berson ifanc yn fater difrifol iawn, a bu'n edrych ar y cyfraddau hunanladdiadau ymysg pobl ifanc yng Nghymru i weld a oes unrhyw ffactorau cyffredin a pha ymchwiliadau pellach a allai fod yn fuddiol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi, datblygu neu ariannu nifer o wasanaethau sy'n gallu cynnig cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd/ gofalwyr gan gynnwys:

- llinell Gynghori a Gwrando Gymunedol (CALL) - llinell gymorth iechyd meddwl (ac mae hefyd yn ystyried ar hyn o bryd a ellir ei hymestyn i gynnwys rhieni sy'n pryderu am eu plant);
- canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i hybu iechyd a lles meddyliol disgyblion. Mae canllawiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer meithrinfeydd;
- atgyfnerthu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru drwy ddatblygu amrediad cytbwys o wasanaethau ym meysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Marwolaethau babanod

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad amrediad cynhwysfawr o raglenni a pholisïau i wella cyfraddau pwysau geni a marwolaethau babanod, yn cynnwys:

- rhaglenni i hybu cynlluniau ar gyfer menywod sy'n agored i niwed, rhai yn eu harddegau ac iechyd rhywiol a chymorth i gymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i drefnu a darparu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ledled Cymru, gan roi sylw penodol i ysmygwyr beichiog.
- gweithredu *Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru* (gweler isod).

- safonau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, i leihau'r peryglon i'r fam a'r baban ac i sicrhau canlyniadau diogel a chadarnhaol bob amser. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyn cenhedlu am ddatblygu ffyrdd iach o fyw, mynediad i ofal cynenedigol, mynediad i addysg i rieni, a grwpiau cymorth a mynediad at wybodaeth am roi'r gorau i ysmygu a chamddefnyddio sylweddau.
- Cychwyn Iach (cynllun newydd a gymerodd le'r Cynllun Bwyd Lles ym mis Tachwedd 2006). Bydd hyn yn galluogi mamau beichiog, a mamau babanod a phlant ifanc dan 4 oed, i gael cyngor a chyfarwyddyd gan weithwyr proffesiynol y GIG - i'w helpu i ddewis bwydydd maethlon cyn geni eu babanod ac wedyn. Er bod y cynllun yn rhedeg ledled y DU, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu £9 miliwn at y cynllun yn 2006-07.

Hybu bwydo ar y fron

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cymryd camau i hybu bwydo ar y fron, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo hynny drwy ei Strategaeth Bwydo ar y Fron.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella niferoedd y mamau yng Nghymru sy'n dechrau bwydo ar y fron, ac i ymestyn yr amser y byddant yn bwydo eu babanod ar y fron.

Yn 2003, penododd Llywodraeth y Cynulliad ei Chydgysylltydd Bwydo ar y Fron cyntaf i helpu i weithredu ei Strategaeth Bwydo ar y Fron *Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru*. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Cenedlaethol i ystyried argymhellion y Strategaeth. Yn eu plith mae rhai sy'n ymwneud â chasglu data, gwybodaeth i rieni, gwaith gyda phlant a phobl ifanc, gwella sgiliau proffesiynol a bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus.

Mae *First Results* (2005), yr arolwg o fwydo ar y fron a gynhelir bob pum mlynedd yn y DU, wedi darparu data am Gymru am y tro cyntaf, sy'n dangos bod 67 y cant o famau'n dechrau bwydo ar y fron. Bydd yr adroddiad llawn ar gael yn 2007.

Mae mwy na 50 o Grwpiau Cefnogi Bwydo ar y Fron lleol wedi'u sefydlu erbyn hyn gyda mamau sydd wedi gwirfoddoli i gefnogi eu cymheiriaid yn eu cymunedau. Yn ogystal â hynny, ceir Wythnos Ymwybyddiaeth Bwydo ar

y Fron flynyddol i hybu bwydo ar y fron sy'n rhoi pwyslais penodol ar y mamau hynny sy'n lleiaf tebygol o wneud hynny, sef y mamau ieuengaf a adawodd yr ysgol yn gynnar.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi lansio'i Chynllun Croeso i Fwydo ar y Fron i gefnogi mamau sy'n dymuno bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus fel bwytai, siopau, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Bydd y Cynllun yn cael ei hybu a'i fonitro gan weithwyr cefnogi bwydo ar y fron gwirfoddol yn eu hardaloedd lleol.

Mater i Lywodraeth y DU yw mabwysiadu'r Cod Rhyngwladol ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron (fel yr argymhellodd Pwyllgor y CU). Er hynny, mae Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru'n cymryd rhan ym Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU, sy'n seilio ei gofynion ar y Cod Rhyngwladol. Mae naw Uned Famolaeth wedi ennill Achrediad Llawn a phedair Uned Famolaeth yn rhagor ac un Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd wedi derbyn y Dystysgrif Ymrwymiad. Wrth i fwy o gyfleusterau gofal iechyd gymryd rhan yn y Fenter hon, bydd mwy o ymlyniad wrth y Cod yng Nghymru.

Anffurfio organau cenhedlu menywod

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylai'r Parti Gwladwriaeth orfodi mesurau i wahardd anffurfio organau cenhedlu menywod.

Bu anffurfio organau cenhedlu menywod yn anghyfreithlon yn y DU er 1985. Atgyfnerthwyd y fframwaith cyfreithiol yn 2003, pan ddaeth yn drosedd dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod i ddinasyddion y DU neu rai sy'n preswylio'n barhaol yn y DU anffurfio neu gynorthwyo i anffurfio menywod mewn gwledydd tramor, hyd yn oed mewn gwledydd lle y mae'r arfer yn gyfreithlon. Mae canllawiau cryfach a mwy diweddar ar anffurfio organau cenhedlu menywod yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar amddiffyn plant, *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*.

Yn 2005 mabwysiadodd Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant) Brotocol ar Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, a oedd wedi'i ddatblygu'n wreiddiol gan Bwyllgor Ardal Amddiffyn Plant Caerdydd. Erbyn hyn, mae'r ddogfen honno wedi'i mabwysiadu gan awdurdodau lleol mewn rhannau eraill o'r DU.

Iechyd rhywiol, beichiogi a rhianta yn yr arddegau

Argymhellodd Pwyllgor y CU amryw o fesurau i leihau'r gyfradd beichiogi ymysg rhai yn eu harddegau, gan gynnwys addysg rhyw a mesurau amddiffyn am ddim, a chynnig gwell gwasanaethau gwybodaeth, cynghori a chymorth. Roedd hefyd yn awyddus i weld cyrsiau rhianta ar gyfer mamau ifanc dan 16 oed.

Fframwaith Iechyd Rhywiol

Roedd y Fframwaith Iechyd Rhywiol a lansiwyd yn 2000 yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i hybu iechyd rhywiol. Y prif amcanion yw lleihau cyfraddau heintiau sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol (gan gynnwys HIV) a chyfraddau cenhedlu ymysg yr arddegau, a sicrhau bod cyngor o ansawdd da ar gael ar iechyd rhywiol.

Mae mwy na £3 miliwn wedi'i ddyrannu i hybu cynlluniau iechyd rhywiol lleol er 2001, gan gynnwys gwaith i ddatblygu clinigau hygyrch i bobl ifanc, prosiectau addysg rhyw a chydberthynas yn y gymuned, a chynllun i hybu prosiectau dosbarthu condomau ledled Cymru. Sefydlwyd rhwydwaith iechyd rhywiol i Gymru gyfan i gynnig fforwm i rannu'r arferion gorau ar gyfer hybu iechyd rhywiol.

Mae rhaglen o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ar heintiau sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol wedi'i rhedeg gan Lywodraeth y Cynulliad er 2001. Datblygwyd posteri a thaflenni gwybodaeth i anelu negeseuon am ryw diogel at bobl ifanc ac fe'u gosodir yn nhoiledau tafarnau a chlybiau a phrifysgolion a cholegau ledled Cymru. Fe'u hanfonwyd hefyd at feddygon teulu ac i glybiau ieuenctid, clinigau iechyd rhywiol a fferyllfeydd ledled Cymru.

Cyrsiau rhianta i famau dan 16 oed

Tynnwyd sylw yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth at yr angen am wasanaethau arbenigol i rieni ifanc. Gall hynny gynnwys grwpiau cefnogi fel "Young Mums R Us" a "Young Mums 2B R Us", a sefydlwyd gan Cychwyn Cadarn yn Abertawe. Mae Cynllun Gweithredu Rhianta Llywodraeth y Cynulliad yn annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i sefydlu mwy o wasanaethau o'r math hwn, gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc) yn 2006-07 a 2007-08. Ymdrinnir â mynediad gan rieni ifanc i addysg a hyfforddiant ym Mhennod 6.

Gwybodaeth a chymorth i bobl ifanc hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid darparu gwybodaeth a chymorth digonol i bobl ifanc hoyw, lesbiaidd a thrawsrywiol. Mae'r adran hon yn dangos sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hyrwyddo cyfle cyfartal a chymorth i'r gymuned o bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol yng Nghymru.

Helpodd Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu Stonewall Cymru yn 2002, ac mae'n dal i roi cymorth grant i'r corff hwnnw (£76,875 ar hyn o bryd yn 2006-07). Mae Stonewall Cymru yn gorff aelodaeth sydd â mwy na 500 o unigolion a grwpiau ledled Cymru'n aelodau ohono. Mae'n aelod sefydlog o Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae wedi cynhyrchu dau arolwg, *Eich Cyfrif neu'ch Eithrio* a *Ninnau Hefyd!*, ac mae'r ddau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac wedi cael ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad.

Dros y tair blynedd nesaf, ar ran Llywodraeth y Cynulliad, bydd Stonewall Cymru yn canolbwyntio ar saith maes gwaith strategol sy'n berthnasol i lawer o'r materion allweddol yn arolygon *Eich Cyfrif neu'ch Eithrio* a *Ninnau Hefyd!*: datblygu cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, cyfleoedd teg mewn bywyd, newid agweddau meddwl, a diogelwch cymunedol. Bydd pob un o'r rhain o fudd i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, a deurywiol a thrawsrywiol, ond bydd y sylw i addysg yn arbennig o berthnasol. Yr amcan wrth ymdrin â'r maes hwn yw peri bod yr ysgol yn lle tecach a mwy diogel i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw' a deurywiol a thrawsrywiol drwy ostwng nifer y bobl deurywiol sy'n profi bwlio homoffobig ac ymdrechu i wrthweithio tangyrhaeddiad ymysg pobl lesbiaidd, hoyw, a deurywiol thrawsrywiol.

Mae'r prosiect Ymestyn Hawliau dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (gweler t. 4) yn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau buddiant arbennig, gan gynnwys pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Y nod yw sicrhau na chaiff y grŵp hwn ei rwystro rhag arfer y 10 Hawl. Yn ogystal â hynny, mae Draig Ffynci yn ymgymryd â gwaith datblygu gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, gan gynnwys grwpiau sy'n nodi eu bod yn rhai lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, i sicrhau cynrychiolaeth briodol iddynt yng ngweithgareddau Draig Ffynci.

Galwodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn benodol am ddiddymu Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986. Diddymwyd yr adran honno yng Nghymru a Lloegr ar 18 Medi 2003. Cyn hynny, roedd canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion wedi datgan

yn glir nad oedd yr adran honno'n gwahardd trafodaeth wrthrychol ar gyfeiriadedd rhywiol yn yr ystafell ddosbarth, ac y câi ysgolion ddarparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i ddisgyblion. Yn Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio (2003) cyfeiriwyd yn benodol at grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu bwlio oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gymorth hefyd i lansio ymgyrch "Addysg i Bawb" yng Nghymru yn 2005. Trefnwyd yr ymgyrch hon gan Stonewall, mewn partneriaeth â Friends and Families of Lesbians and Gays (FFLAG), i geisio sicrhau nad yw tueddfryd rhywiol rhywun yn cyfyngu ar ei fynediad i addysg.

Yn yr ysgolion, mae rôl allweddol i'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol o ran galluogi disgyblion i drafod materion iechyd ac emosiynol, gan gynnwys y rhai sydd yn y broses o "ddod allan" fel rhywun hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu drawsrywiol.

Tlodi plant a digartrefedd ymysg pobl ifanc

Pwysodd Pwyllgor y CU ar lywodraeth i gymryd camau i ddileu tlodi plant yn gyflymach, ac i ddwysáu a chydgysylltu'n well ei hymdrechion i ymdrin ag achosion a chanlyniadau digartrefedd ymysg pobl ifanc. Yn yr adran hon, ymdrinnir â mesurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddelio â'r materion hyn.

Strategaeth Tlodi Plant

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod y gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant yn rhan annatod o'i strategaeth fwy cyffredinol i wella ansawdd bywyd a chynnig cyfleoedd i bob cymuned yng Nghymru. Un o Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau na fydd plant a phobl ifanc dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r adroddiad diweddaraf ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, a gyhoeddwyd gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU ym Mawrth 2006, yn dangos ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2002-03 a 2004-05 (ar ôl ystyried costau tai) bod 28 y cant ar gyfartaledd o'r plant yng Nghymru yn byw ar aelwydydd lle y mae tlodi incwm cymharol. Diolch i ostyngiadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Mae gan Gymru gyfradd tlodi plant cymharol sy'n is na'r un ar gyfer Llundain a rhannau eraill o Loegr gan gynnwys Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Glannau Mersi, a Swydd Efrog a Humber.

Lansiwyd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad, *Dyfodol Teg i'n Plant*, yn Chwefror 2005. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rhan lawn a gweithgar wrth gyflawni ei hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020 ac i haneru tlodi plant erbyn 2010, o'i gymharu â'r ffigurau ar gyfer 1997. Wrth ddatblygu ei Strategaeth Tlodi Plant, bu Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn arweiniad Confensiwn y CU a chanfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl ar Dlodi Plant yn 2004 a wrandawodd ar farn a phryderon plant a phobl ifanc.

Mae Cynllun Gweithredu wedi'i lunio i hyrwyddo'r Strategaeth. Mae'n cynnwys amryw o gynigion, targedau trawsbynciol a cherrig milltir i fonitro a mesur y cynnydd tuag at y nod o ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020.

Mae cyfnod cyntaf y Cynllun yn cynnwys y cynigion hynny sydd i'w rhoi ar waith yn ystod 2006-07. Yn eu plith mae nifer o gynigion polisi cyffredinol fel y rhai ar gyfer prawfesur holl gynlluniau strategol ac ymrwymiadau gwariant newydd Llywodraeth y Cynulliad o safbwynt tlodi plant, a gwyro rhaglenni os cynigir y bydd cyllidebau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad yn ffafrio'r plant tlotaf a'u teuluoedd. Yn ogystal â hynny, mae amryw o gynigion polisi penodol sy'n cynnwys mwyhau incwm teuluol, adolygiad plant o'r canllawiau ar gyfraith cynllunio, ac argymhellion ar weithgareddau yng ngwyliau'r haf a darpariaeth chwarae.

Mae'r polisi'n nodi'r meysydd polisi pwysig hynny lle y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gyrraedd amryw o gerrig milltir tymor canolig (2010) a thargedau tymor hir (2020), fel y gellir mesur y cynnydd ar ddileu tlodi plant dros amser. Adroddir ar gynnydd bob blwyddyn drwy'r Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio'r pwerau deddfu newydd, a fydd ar gael i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fis Mai 2007, i ddatblygu deddfwriaeth a fydd o gymorth i ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae Tlodi Plant, gyda phwyslais penodol ar unig rieni, wedi'i fabwysiadu'n drydedd thema waith gan Grŵp Cynhwysiant Cymdeithasol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Gweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â phwyntiau trawsnewid ym mywydau pobl a'r gefnogaeth a gânt wrth fynd heibio iddynt, gan gofio y bydd pobl yn dod yn unig rieni ac yn peidio â bod yn unig rieni ar wahanol adegau. Y nod yw goleuo'r gwaith o ddatblygu polisi yn y gwahanol Weinyddiaethau.

Mae nifer o gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad yn ategu'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu. Yn eu plith, mae Cymunedau yn Gyntaf, Cymorth a'r rhaglen Dechrau'n Deg. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ceisio gwella amodau byw a rhagolygon y rhai sydd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau bod y cyllid a'r cymorth sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ac amryw o asiantaethau eraill a ariannir gan y cyhoedd yn cael eu targedu ar yr ardaloedd tlotaf. Ar hyn o bryd, mae Cymorth (Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc) yn cynorthwyo tua 1,000 o brosiectau sydd â'r amcan penodol o wella cyfleoedd bywyd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae Dechrau'n Deg wedi'i dargedu ar blant 0-3 oed sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gydnabod y dystiolaeth bod plant mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd lluosog yn profi effeithiau ychwanegol anfantais. Dechreuwyd darparu gwasanaethau yn Ionawr 2007. Rhai o'r ymyriadau arfaethedig yw gofal plant o ansawdd da am ddim i rai 2 flwydd oed, gwasanaethau ymwelwyr iechyd ychwanegol, a rhaglenni rhianta sy'n hyrwyddo gwell canlyniadau i blant yn y tymor hir. Mae'r cynigion wedi'u targedu'n gyntaf ar nifer cyfyngedig o ddalgylchoedd ysgol, er mwyn buddsoddi'n ddwys, ond mae'n bosibl y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith yn fwy eang ym mlynyddoedd y dyfodol yng ngoleuni'r gwerthuso a fydd arni.

Digartrefedd ymysg plant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ymysg pobl ifanc a diwallu anghenion plant digartref. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd i Gymru 2006-08 yn nodi amryw o fesurau, gan gynnwys gofyniad i Bartneriaethau Pobl Ifanc baratoi strategaethau i ddiwallu anghenion tai pobl leol yn eu hardal, ariannu'r gwaith o ddylunio pecyn hyfforddi i weithwyr ieuenctid, a datblygu mecanwaith ymgynghori i gynnwys pobl ifanc yn y Strategaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo gwaith gyda'r sector ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o beryglon digartrefedd a sut i'w hosgoi.

Mae deddfwriaeth wedi'i gwneud i roi pen ar leoli pobl ddigartref ifanc gan awdurdodau lleol mewn llety gwely a brecwast dros y tymor hir, a daw i rym yn Ebrill 2007. Mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006 yn gosod safonau uwch hefyd ar gyfer lletya pobl ifanc ar y cyd am gyfnod dros dro, ac mae'n mynnu bod awdurdodau lleol yn ystyried eu hanghenion personol, cymdeithasol ac iechyd wrth sicrhau llety ar eu cyfer.

Gwnaed deddfwriaeth hefyd i sicrhau bod teuluoedd digartref sydd â phlant yn cael llety dros dro o safon uwch pan fyddant yn mynd yn ddigartref, cyn eu hailgartrefu'n barhaol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn hyrwyddo addysg am ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae'n rhoi cymorth ariannol i Shelter Cymru i hyrwyddo'r defnydd o becyn addysg ar ddigartrefedd, 'Housemate' mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid, a hefyd i baratoi gwefan o arferion da ar hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc ar hyd a lled Cymru.

Mae Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal adolygiad o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc i sicrhau y gwneir pob ymdrech i leihau'r broblem hon. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ymateb i'r adroddiad hwn, a'r 29 o argymhellion sydd ynddo, ym mis Mawrth 2007.

Maethiad a gweithgarwch corfforol

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymysg plant a phobl ifanc. Mae'r adran hon yn ymdrin â bwyd a ffitrwydd a mentrau eraill fel Llwybrau Diogel i Ysgolion sydd hefyd yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.

Lansiwyd Bwyd a Ffitrwydd - Hybu bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc yng Nghymru (cynllun gweithredu pum mlynedd) ym Mehefin 2006. Roedd yn dilyn ymgynghori ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl Bwyd a Ffitrwydd. Mae'r Cynllun yn ceisio darparu amgylchedd mewn cymunedau ac ysgolion a fydd yn cymell plant a phobl ifanc i achub ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a bwyta bwydydd iachach. Mae cynlluniau cymunedol yn targedu camau gweithredu ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai mewn cymunedau difreintiedig.

Yn y ddogfen ymgynghori *Blas am Oes*, edrychwyd yn benodol ar sut i wella ansawdd a safonau maeth bwyd ysgol a sut i sicrhau cysondeb a chydlyniaeth wrth hyrwyddo gwelliannau drwy ddull ysgol gyfan. Cafwyd mwy na 300 o ymatebion oddi wrth blant a phobl ifanc. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ac fe'u hystyrir wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu.

Mae prydau ysgol, a darparu prydau am ddim yn yr ysgol yn enwedig, yn agwedd bwysig ar strategaeth wrth-dlodi Llywodraeth y Cynulliad. Mewn ardaloedd difreintiedig lle y mae'r rhan fwyaf o'r prydau'n cael eu harlwyo am ddim, y rhain sy'n pennu'r ansawdd ar gyfer y gwasanaeth cyfan.

Mae'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd yn rhan annatod o ddull ysgol gyfan Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella iechyd plant. Amcan y fenter hon yw rhoi dechrau da i'n plant ieuengaf drwy roi cyfle iddynt gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol. Erbyn Rhagfyr 2006 roedd mwy na 40% o ysgolion cynradd wedi cytuno i gymryd rhan.

Rhai o'r camau gweithredu penodol eraill mewn ysgolion yw hybu siopau ffrwythau mewn ysgolion, cyfarpar oeri dŵr, a pheiriannau adwerthu bwydydd iach.

Ysgolion Iach

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu sicrhau, erbyn 2010, y bydd yr holl ysgolion yng Nghymru'n cymryd rhan mewn cynlluniau ysgolion iach lleol fel rhan o Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i hyrwyddo amgylchedd ac ethos ysgolion, ac yn meithrin hunan-barch disgyblion drwy eu cynnwys mewn penderfyniadau ar weithgareddau hybu iechyd yn eu hysgolion.

Rhai o'r cynlluniau mewn ysgolion i hybu gweithgarwch corfforol yw:

- Symud y Dosbarth! - rhaglen sy'n galluogi plant ac athrawon i fwynhau manteision ymarfer corfforol ar sail calendrau gweithgareddau;
- Campau'r Ddraig - cynllun Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd allgwricwlar a rhai yn y gymuned mewn saith o chwaraeon ar gyfer rhai 7-11 mlwydd oed;
- Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion - clystyrau o ysgolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella safonau a rhannu arferion da mewn chwaraeon mewn ysgolion.

Comisiynwyd yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, i ymchwilio i'r graddau y mae ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol yn cymryd camau i wella iechyd, maethiad a ffitrwydd fel cymorth i wella cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol.

Llwybrau Diogel i Ysgolion

Dyfarnwyd £3.8 miliwn i 50 o brosiectau Llwybrau Diogel i Ysgolionl ledled Cymru yn 2006-07, fel bod cyfanswm o fwy na £22 filiwn wedi'i neilltuo i'r cynllun ers ei ddechrau. Mae tystiolaeth o'r cynlluniau yng Nghymru wedi dangos bod llawer o blant a phobl ifanc, o gael y cyfle, yn fodlon seiclo neu gerdded i'r ysgol, ar yr amod eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod cyfleusterau seiclo diogel ar eu cyfer. Yn ogystal â hynny, casglwyd teimladau a phrofiadau plant a phobl ifanc o gludiant ysgol gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ei adroddiad, *Ond mod i'n cyrraedd yn sâff: anelu at deithiau gwell a mwy diogel i'r ysgol*.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu gwerthusiad o gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r holl gynlluniau sydd wedi'u hariannu hyd yma, i ddarganfod pa newidiadau a gafwyd o ran teithiau i'r ysgol, y modd trafnidiaeth a ddefnyddiwyd, newidiadau i gyflymder a/neu faint traffig, a newidiadau o ran niferoedd y gwrthdrawiadau sy'n gysylltiedig â'r daith i'r ysgol. Bydd y canlyniadau ar gael yn nes ymlaen yn 2007.

Dringo'n Uwch

Ym mis Gorffennaf 2006, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad *Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf*, sy'n cynnig fframwaith ar gyfer camau i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn cymunedau ac ym mhob grŵp oedran ledled Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £7.8 miliwn o gyllid ychwanegol i ategu'r camau gweithredu integredig ar draws llywodraeth a thrwy bartneriaethau i gynnig mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae rhaglenni penodol fel cynllun Nofio am Ddim Llywodraeth y Cynulliad, sy'n werth £5 miliwn, a '5x60', ei rhaglen chwaraeon newydd sy'n werth £7.6 miliwn mewn ysgolion uwchradd yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol sydd wedi'u hanelu atynt a'u dyfeisio fel eu bod yn cymell mwy o gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Pennod 6: Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol

Erthyglau 28 a 29 *Yr hawl i addysg*. **Erthygl 31** *Yr hawl i chwarae a chael hamdden*.

Ym mis Medi 2001, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad *Y Wlad sy'n Dysgu*, ei rhaglen strategol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes dan y llywodraeth ddatganoledig newydd yng Nghymru. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gwireddu'r Weledigaeth*, a gyhoeddwyd yn Hydref 2006, yn nodi cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu agenda *Y Wlad sy'n Dysgu* yng ngoleuni profiad a llwyddiannau'r pum mlynedd blaenorol.

Ymhlith y strategaethau i hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc yng Nghymru i gyfranogi'n llawn o amrediad o gyfleoedd hamdden y mae strategaeth *Dringo'n Uwch* ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a strategaeth *Cymru Greadigol* i hyrwyddo mynediad at brofiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc.

Bydd rhai o bolisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys y rhai ar drafnidiaeth a'r amgylchedd, yn cael effaith fawr hefyd ar allu plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Er enghraifft, mae trafnidiaeth hygyrch a fforddiadwy'n allweddol yn aml i sicrhau bod plant a phobl ifanc o bob cefndir yn gallu cymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau hamdden. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ynghylch hynny drwy fentrau fel y cynllun peilot a lansiwyd yn 2006 i ganfod pa mor ymarferol a fforddiadwy fyddai cynllun tocynnau hanner pris i rai rhwng 16 a 18 mlwydd oed ar fysiau. Mae'r cynllun peilot dwy flynedd yn cael ei gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn y Gogledd-ddwyrain (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i weithgareddau chwarae'n bwysig hefyd. Yn 2002, Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ddatblygu polisi chwarae, gyda'r amcan penodol o hyrwyddo'r hawl i chwarae yn Erthygl 31.

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru Ddwyieithog *(Iaith Pawb,* 2003*)* yn gosod targedau ar gyfer 2011 i greu mwy o ddefnydd ac amlygrwydd i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd, gan gynnwys addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol.

Cyfranogi gan Ddisgyblion

Hyrwyddo cyfranogiad gan blant ym mhob mater sy'n ymwneud â'u haddysg, gan gynnwys disgyblu, oedd yr argymhelliad cyntaf yn y rhan hon o'r Sylwadau Terfynol. Mae'r adran hon yn ymwneud â chynghorau ysgol, a wnaed yn statudol yng Nghymru yn 2006, ac â'r rhan sydd i blant a phobl ifanc yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm.

Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (heblaw ysgolion meithrin ac ysgolion babanod a gynhelir) i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch ymgynghori â disgyblion mewn cysylltiad â gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu rhoi canllawiau i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgol ar gyfranogiad disgyblion yn 2007.

Gweler hefyd yr adran ar eiriolaeth ym Mhennod 2 yn yr adroddiad hwn am wybodaeth am eiriolaeth a gweithdrefnau cwynion mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Cynghorau Ysgolion

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gofyniad cyfreithiol i'r holl ysgolion cynradd a gynhelir (heblaw ysgolion meithrin ac ysgolion babanod), ac ysgolion uwchradd ac arbennig a gynhelir fod â chyngor ysgol (erbyn 1 Tachwedd 2006). Drwy gyflwyno'r gofyniad hwn, cyflawnodd Llywodraeth y Cynulliad agwedd bwysig ar ei hymrwymiad i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Un arwydd o'r pwys a roddir ar gynghorau ysgolion yw eu bod, mewn ysgolion uwchradd, yn cael enwebu dau aelod o flynyddoedd 11-13 yn gynhwysol i fod yn ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt ar gorff llywodraethu'r ysgol. Rhaid i'r corff llywodraethu dderbyn enwebiadau o'r fath.

Mae'r her o beri i gynghorau ysgolion weithio'n effeithiol, fel y caiff disgyblion gyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar eu hamgylchedd dysgu, yn un allweddol. Mae adborth oddi wrth blant a phobl ifanc, drwy Draig Ffynci ac asiantaethau eraill, wedi dangos bod awydd mawr i lwyddo yn hyn o beth.

Er mwyn ymateb i hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Prosiect Cynghorau Ysgolion pwrpasol sy'n gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid, gan gynnwys Draig Ffynci a'r plant a'r bobl ifanc eu hun, i ddarparu gwybodaeth a chymorth ymarferol i ysgolion i'w helpu i ddatblygu cynghorau ysgolion gwirioneddol effeithiol ar sail y gofynion yn y ddeddfwriaeth.

- **Cyfnod Peilot I**

Mae'r Prosiect Cynghorau Ysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf hyd yma ar ddatblygu deunyddiau cymorth a hyfforddi i'w defnyddio gan oedolion a/neu blant a phobl ifanc mewn ysgolion wrth fynd drwy'r broses o sefydlu a datblygu cynghorau ysgolion a phrosesau cyfranogi. Yng Nghyfnod Peilot I, rhoddwyd prawf ar y deunyddiau hyfforddi mewn sampl o 12 o ysgolion ledled Cymru. Bu'r mwyafrif llethol o'r ymatebion yn gadarnhaol. Roedd staff yn cael bod y deunyddiau'n effeithiol ac yn hyblyg, ac roeddent yn falch o gael cyfle i rwydweithio ag ysgolion eraill a dysgu am gyfranogi'n fwy cyffredinol. Mynegodd llawer ohonynt awydd i gynorthwyo ysgolion eraill i ddatblygu prosesau ymgynghori a chyfranogi mwy effeithiol. Mewn adroddiad gwerthuso ar Gyfnod Peilot I, a gwblhawyd yn Awst 2006, codwyd y materion canlynol:

  - Cynaliadwyedd - nid oedd yn glir ar adegau a oedd yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn ymateb yn gadarnhaol i'r deunyddiau eu hun neu i ansawdd y mewnbwn gan hyfforddwyr. Ymhlith y datblygiadau yn y dyfodol bydd cyrsiau Hyfforddi'r Hyfforddwyr ac arbenigwyr lleol a fydd yn gallu cynnig cyngor a hyfforddiant i glystyrau o ysgolion.
  - Yr angen i hyrwyddo a datblygu dulliau ysgol gyfan o gyfranogi sy'n cynnwys datblygu sgiliau, y cwricwlwm, dysgu ac addysgu, polisïau a chynlluniau ysgol gyfan.
  - Yr angen i ddatblygu mwy o ddeunyddiau ar gyfer ysgolion arbennig a mwy o ddeunyddiau sy'n hwylus i blant a phobl ifanc - er enghraifft, ar hyfforddi cyfoedion.

Cynhaliwyd cynhadledd undydd ar gyfer llywodraethwyr ysgol ac awdurdodau lleol yng Ngorffennaf 2006. Roedd y rhai a gymerodd ran yn falch o gael cyfle i ddarganfod mwy am yr agenda genedlaethol ar gyfranogi; croesawyd y deunyddiau hyfforddi; a chafwyd ymateb brwd i'r hwyluso galluog iawn ar y gweithdai gan ddisgyblion cynradd ac uwchradd gyda chymorth oedolion.

Mae digwyddiadau pellach yn yr arfaeth a fydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gwneud cyngor ysgol effeithiol, ac ar alluogi pobl i rwydweithio a rhannu arferion da. Er hynny, roedd hefyd yn amlwg bod llawer o waith i'w wneud eto i egluro'r agenda ar gyfranogi mewn cysylltiad â rôl llywodraethwyr ysgol ac i ddarparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr fel y gallant helpu i hyrwyddo'r agenda.

- **Gwefan y Cynghorau Ysgolion:**

Mae'r holl ddeunyddiau gwybodaeth, cymorth a hyfforddi sydd wedi'u datblygu hyd yma i'w cael ar wefan benodedig *www.schoolcouncilswales.org.uk/www.cynghorauysgolcymru.org.uk*. Mae'r wefan yn cynnwys adrannau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae'n gwbl ddwyieithog. Datblygir adran ar gyfer ysgolion arbennig hefyd. Yn ogystal â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, gobeithir y bydd y wefan yn cael ei defnyddio a'i harddel gan blant a phobl ifanc, ac y byddant hwy a'r oedolion sy'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynghorau ysgolion yn defnyddio'r wefan i ofyn cwestiynau, hyrwyddo trafodaeth a rhannu arferion da drwy gyflwyno astudiaethau achos ac enghreifftiau o ddogfennau sydd ar ffurf hwylus i bobl ifanc. Bydd y wefan yn adnodd sy'n datblygu.

- **Cyfnod Peilot II ac wedyn:**

Mae Cyfnod Peilot II y prosiect yn rhedeg rhwng Medi 2006 a Mawrth 2007. Mae'n cynnwys camau i ymestyn y gweithgareddau hyfforddi mewn ysgolion ymhellach i gynnwys y 15 awdurdod lleol nad oeddynt yn rhan o Gynllun Peilot I. Gofynnir i ysgolion sy'n cymryd rhan yn yr ail gyfnod peilot hwn gysylltu'r gwaith o ddatblygu eu cyngor ysgol â dulliau ysgol gyfan o gyfranogi - gan ystyried, er enghraifft, y broses o ddatblygu sgiliau, dysgu ac addysgu, meysydd cwricwlwm penodol, a chynlluniau ar gyfer yr ysgol gyfan fel Ysgolion Iach ac Eco-Ysgolion. Cynhelir gwerthusiad llinell sylfaen fel y gellir mesur effaith y cyfranogi ychwanegol.

Cynlluniau eraill a ragwelir fel rhan o Gyfnod Peilot II a'r cyfnod ar ôl hynny yw:

- datblygu cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwyr - i'w ragbrofi yn y Gogledd a'r De;
- cynllunio digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc - yn benodol, fel y gall Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt edrych ar eu rôl a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu cynnig;
- cynhadledd ar y cyd â NASEN (y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig) ynghylch cyfranogi mewn ysgolion arbennig a lleoliadau eraill;
- gwaith i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cynghorau ysgolion a chyfranogi ar y lefelau lleol a chenedlaethol;

- creu a chydgysylltu rhwydweithiau lleol cynaliadwy fel y gellir rhoi cymorth yn lleol i ysgolion, plant a phobl ifanc i ddatblygu cyfranogiad ac ymgysylltu â'r agenda leol a chenedlaethol.

Trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu darparu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr sy'n rhedeg o'r Cyfnod Sylfaen (3-7) hyd at Lwybrau Dysgu 14-19. Yn yr adran hon, ymdrinnir â'r rhan y mae plant a phobl ifanc wedi'i chwarae wrth lunio trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

Mae'r cwricwlwm yng Nghymru'n cynnwys tri phrif gyfnod:

- Cwricwlwm y blynyddoedd cynnar sy'n seiliedig ar ddysgu gweithredol ac yn cynnwys elfennau chwarae ac asesu ar gyfer dysgu, ac sy'n gallu sicrhau mwy o ymgysylltu, mwynhad a chyflawniad ymysg y plant ieuengaf. Mae Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer rhai 3-7 mlwydd oed yn cael ei ragbrofi ar hyn o bryd, ac fe'i rhoddir ar waith yn llawn ledled Cymru erbyn 2011.
- Cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau ar gyfer rhai 7-14 blwydd oed sy'n datblygu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac yn paratoi ar gyfer y llwybrau dysgu amrywiol y bydd pobl ifanc yn eu dilyn yn eu haddysg a'u hyfforddiant rhwng 14 a 19 blwydd oed.
- Rhaglen Llwybrau Dysgu ar gyfer rhai 14-19 blwydd oed, sy'n darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd, gan gynnwys cynigion galwedigaethol deniadol ar gyfer pob gallu a chyfranogi o brofiadau amrywiol iawn gydag achredu ar gyfer dysgu lle bynnag y bo modd.

Bu'r ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn elfen hollbwysig o ran cael cymorth i lunio trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â phobl ifanc gan ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn 2004, fel rhan o adolygiad mwy cyffredinol o'r cwricwlwm.

Drwy'r ymgynghoriad, ceisiwyd canfod profiadau a barn pobl ifanc mewn cysylltiad â'r agweddau canlynol ar y cwricwlwm ysgol: mwynhad, ehangder a chydbwysedd, hwylustod, perthnasedd, dilyniant a chydlyniaeth, cynnydd, gwerthoedd mewn addysg, a dulliau asesu a chymwysterau.

Ymgynghorwyd mewn ysgolion a oedd wedi'u dewis fel eu bod yn cynnig amrediad ieithyddol a daearyddol cynrychioladol. Yn y cyfnod cynradd, ymgynghorwyd â chyfanswm o 177 o ddisgyblion Blwyddyn

Chwech (10-11 mlwydd oed) drwy holiadur, sef 84 o fechgyn a 93 o ferched, ac ymgynghorwyd â 80 yn ychwanegol o ddisgyblion Blwyddyn Chwech mewn sesiynau grŵp ffocws. Yn y cyfnod uwchradd, ymgynghorwyd â chyfanswm o 167 o ddisgyblion Blwyddyn Naw (13-14 blwydd oed), sef 78 o fechgyn a 89 o ferched, ac ymgynghorwyd â 60 yn ychwanegol o ddisgyblion Blwyddyn Naw mewn sesiynau grŵp ffocws. Ymgynghorwyd hefyd ar y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru gyda 40 o ddysgwyr 14 - 19 blwydd oed o'r Fforwm Myfyrwyr Ysgolion Uwchradd yng Nghaerdydd, yn ystod tymor yr haf 2004.

Mae deunyddiau o'r ymgyngoriadau hynny wedi'u datblygu ers hynny'n becynnau cymorth ar gyfer ymgynghori sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm, i'w defnyddio gyda disgyblion o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Caiff y pecynnau cymorth eu lansio a'u dosbarthu i ysgolion yn gynnar yn 2007. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog ysgolion i ddefnyddio'r pecynnau cymorth i ymgynghori â phobl ifanc ynghylch newidiadau i Orchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol a fframweithiau diwygiedig ar gyfer Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a Gyrfaoedd a Byd Gwaith.

Ymdrinnir â lle Confensiwn y CU ac addysg hawliau dynol yn y cwricwlwm isod tudalen 77.

Cynnwys disgyblion

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cymryd camau priodol i leihau nifer y gwaharddiadau parhaol a dros dro o ysgolion, ac i sicrhau bod disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn dal i gael addysg amser llawn. Argymhellodd hefyd y dylid cymryd camau i leihau nifer y gwaharddiadau ymysg grwpiau penodol.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo cynhwysiant, mynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu, a chau'r bwlch yn yr anghydraddoldeb sydd yn llwyddiant ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol

Roedd Deddf Addysg 2002 yn caniatáu, am y tro cyntaf, i Gymru ddatblygu deddfwriaeth ar waharddiadau o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a chyflwyno darpariaethau sy'n unigryw i Gymru. Yn 2004, cyhoeddwyd canllawiau statudol, *Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion* a oedd yn ymdrin â'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn wrth wahardd disgyblion, a'r addysg a'r cymorth a ddylai fod ar gael iddynt ar ôl hynny. Mae'r Ddeddf

Addysg yn mynnu bod penaethiaid ysgolion, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, cyrff llywodraethu, Awdurdodau Addysg Lleol a phaneli apelio annibynnol yn rhoi sylw i'r canllawiau wrth wneud penderfyniadau ar wahardd a gweinyddu'r gweithdrefnau gwahardd ac apelau.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â nifer o'r materion a godwyd yn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU:

- cyn penderfynu gwahardd, un ai'n barhaol neu am gyfnod penodol, dylai'r pennaeth ysgol ganiatáu i'r disgybl roi ei ochr ef i'r mater;
- mae hawl gan yr holl ddisgyblion 11 oed a throsodd sydd wedi'u gwahardd i gael eu hysbysu'n ffurfiol am eu gwaharddiad a gallant apelio;
- mae hawl gan ddisgyblion o bob oed i roi eu barn yng nghyfarfod Pwyllgor Disgyblu Disgyblion y Corff Llywodraethu ac yng ngwrandawiad y Panel Apelio Annibynnol. Cânt wneud hynny'n bersonol, mewn ysgrifen neu mewn unrhyw fformat ymarferol arall;
- os nad yw disgyblion o oedran ysgol gorfodol yng nghwmni eu rhieni, dylai'r Awdurdod Addysg Lleol ymdrechu i gael gwasanaeth gan eiriolwr i siarad ar ran y disgybl.

Mae canllawiau clir hefyd ar ddarparu addysg i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd. Bydd yr orfodaeth sydd ar yr ysgol i ddarparu addysg yn parhau tra bydd y disgybl ar gofrestr yr ysgol felly, ym mhob achos lle y ceir gwaharddiad o fwy nag un diwrnod, dylid gosod gwaith a'i farcio. Os yw pennaeth ysgol yn ystyried gwahardd disgybl am fwy na 15 niwrnod ysgol mewn unrhyw dymor, boed hynny'n barhaol neu am gyfnod penodol, dylai wneud cynlluniau i ymdrin â phroblemau'r disgybl a sicrhau addysg barhaus iddo. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r holl ddisgyblion gael darpariaeth lawn amser a phriodol 15 niwrnod ar ôl eu gwahardd, un ai mewn ysgol arall neu, os oes angen, drwy ddefnyddio Uned Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth arall. Gallai rhai disgyblion fod wedi ymddieithrio oddi wrth addysg i'r fath raddau fel ei bod yn annhebygol y bydd eu hailgyflwyno rhag blaen i addysg amser llawn yn llwyddiannus. Yn achos disgyblion o'r fath, dylai'r cynlluniau ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol ymdrin yn benodol â sut i sicrhau eu bod yn derbyn addysg amser llawn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y gwaharddiadau parhaol a'r gwaharddiadau am gyfnod penodol sy'n digwydd yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r gwaharddiadau'n cyfeirio at ddigwyddiadau yn hytrach na disgyblion - hynny yw, byddai disgybl sydd wedi'i wahardd o ddwy ysgol mewn un flwyddyn yn cael ei gofnodi

ddwywaith. Mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth addysg a wneir ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol, y rheswm dros y gwaharddiad, a chyfeiriadau at ethnigrwydd ac anghenion addysgol arbennig.

Yn 2004-05 cafwyd 465 o waharddiadau parhaol, sef cyfradd gwaharddiadau o 1.0 i bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sef y cynnydd cyntaf yn nifer y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru ers blwyddyn academaidd 2001-02. Bu cynnydd hefyd yn nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodol, a nifer y diwrnodau a gollwyd ar gyfartaledd drwy'r gwaharddiadau am gyfnod penodol oedd 3.5 diwrnod, ac roedd y rhan fwyaf o'r gwaharddiadau am gyfnod penodol (87.25 y cant) yn un wythnos neu lai o hyd.

Mae'r ystadegau hefyd yn ategu pryderon ynghylch y cyfraddau gwahardd gwahanol a geir yn ôl rhyw ac anghenion addysgol arbennig:

- mae cyfradd gwahardd y bechgyn yn dal i fod yn uwch na'r un ar gyfer merched. Bechgyn oedd y rhai a waharddwyd mewn mwy nag 8 o bob 10 o'r holl waharddiadau parhaol yn 2004-05;
- yn 2004-05 roedd disgyblion a oedd â datganiad o anghenion addysgol arbennig bron bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol na gweddill y boblogaeth ysgolion;
- mae'r disgyblion hynny sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a weithredwyd gan yr ysgol ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol na gweddill y boblogaeth ysgolion.

Bydd yr ymchwil i ganfod achosion y gwahanol gyfraddau gwahardd hyn, a'r atebion iddynt, ynghyd â'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd, yn rhan allweddol o'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb y disgwylir iddo gyflwyno ei adroddiad yn hydref 2007. Amcan yr adolygiad hwn yw pwyso a mesur profiadau ymarferwyr a thystiolaeth o ymchwil, fel y ceir adroddiad a fydd yn sail i waith datblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a rhwystrau rhag cynhwysiant

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddilyn egwyddorion Addysg Gynhwysol. Mae Addysg Gynhwysol yn broses barhaus lle y bydd ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn datblygu eu diwylliant, eu polisïau a'u harferion i gynnwys yr holl blant a phobl ifanc. Mae'n galw am ymrwymiad gan ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i ddatblygu polisïau ac arferion sy'n sicrhau cyfleoedd addysgol a mynediad cyfartal, gan ganolbwyntio ar wella cyflawniadau'r holl ddysgwyr. Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad ymrwymiad clir yn *Y Wlad sy'n Dysgu* i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a rhwystrau i gynhwysiant.

Cyhoeddwyd canllawiau ar *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* ym mis Tachwedd 2005. Maent yn cynnig cyngor i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol ar sut i ymdrin â dadrithiad ymysg disgyblion, ac i herio anawsterau o ran ymddygiad a phresenoldeb gwael a all beri'n aml i bobl ifanc fethu ag achub i'r eithaf ar eu cyfleoedd mewn addysg. Maent hefyd yn nodi dull cyffredinol o weithredu Addysg Gynhwysol, gan gynnwys egwyddorion gwasanaeth addysg cynhwysol a chynllunio ar gyfer cynhwysiant. Yn ogystal â hynny, cynhyrchwyd dogfen ymgynghori i bobl ifanc o'r enw *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion - Helpu pawb i gael y gorau o'r ysgol*, gyda mewnbwn gan Draig Ffynci.

Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion

Codi safonau cyflawniad yw un o nodau allweddol polisi addysg Llywodraeth y Cynulliad. Er bod safonau cyrhaeddiad wedi codi yn yr holl ysgolion dros y degawd diwethaf, ni fu newid yn y bwlch rhwng y rhai sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn hefyd bod cydberthyniad agos rhwng perfformiad isel ac anfantais.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl gan Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol y Cynulliad yn Hydref 2000, i ystyried y materion hyn ac i wneud argymhellion. Roedd ei aelodau'n cynnwys Llywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff allweddol eraill, gan gynnwys undebau athrawon.

Canolbwyntiwyd yng Nghyfnod Un ar ysgolion uwchradd. Edrychwyd yn benodol ar ysgolion uwchradd sydd wedi dangos nad oes cysylltiad anorfod rhwng amddifadedd a pherfformiad gwael, a cheisiwyd canfod beth a oedd yn llwyddo yn achos yr ysgolion hynny a sut y gellid rhannu arferion da. Y themâu allweddol a gododd o'r gwaith hwn oedd bod personél allweddol mewn ysgolion llwyddiannus sy'n gallu hyrwyddo gwelliannau yn yr ysgol, myfyrio ynghylch dulliau dysgu'r disgyblion, a defnyddio data asesu'n effeithiol i wella dysgu ac addysgu. Gwelwyd hefyd bod angen i ysgolion weithio gyda'u cymunedau lleol i godi statws dysgu ac, mewn rhai achosion, i weithio fel cyfryngau newid yn y gymuned leol. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2002, a lledaenwyd y canlyniadau mewn cynadleddau yn y Gogledd a'r De.

Yng Nghyfnod Dau, canolbwyntiwyd yn benodol ar ysgolion cynradd. Roedd hyn yn cynnwys trosglwyddo rhwng y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd, cau'r bwlch yn y blynyddoedd cynradd, lle'r ysgol gynradd yn y gymuned ehangach, a sut y gall clystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd a grwpiau o ysgolion cynradd gydweithio'n effeithiol. Roedd ei ganfyddiadau'n

adlewyrchu'r rhai yn yr adroddiad ar Gyfnod Un. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Gyfnod Dau ym mis Tachwedd 2005 a chafwyd chwe digwyddiad lledaenu ledled Cymru ar ôl hynny ar ddechrau 2006, lle y gofynnwyd i ysgolion ystyried sut y gallent gymhwyso canfyddiadau'r adroddiad yn eu cyd-destun hwy.

Darparwyd grant o £3 miliwn ar gyfer y tair blynedd rhwng 2003-05 a 2005-06 i ysgolion sydd â pherfformiad isel, y mae llawer ohonynt yn gwasanaethu ardaloedd difreintiedig. O 2006-07 ymlaen, mae'r cyllid hwn, ynghyd â £13 miliwn ychwanegol o ganlyniad i ddatganiad Cyllideb y Canghellor ym Mawrth 2006, wedi'i gyfuno dan raglen Rhagori. Mae Rhagori yn cynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais mewn ysgolion lle y mae 20 y cant neu ragor o'r disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; ac mae'n cynnig cymorth dysgu i blant sy'n derbyn gofal. Bydd y cyllid yn parhau am ddwy flynedd.

Cynghori a hybu iechyd emosiynol

Mewn ymateb i Ymchwiliad Clywch ac er mwyn hyrwyddo elfennau o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer cynghori mewn ysgolion. Y bwriad yw datblygu fframwaith ymarfer a safonau ac ychwanegu at lefel y gwasanaethau cynghori sydd ar gael i ddisgyblion pan fyddant yn profi anawsterau iechyd meddwl.

Cynhaliwyd ymarferiad cwmpasu dechreuol ar y ddarpariaeth cynghori bresennol mewn ysgolion yng Nghymru rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2005 i oleuo'r gwaith ar ddatblygu'r strategaeth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu ymchwil hefyd i werthuso'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cynghori mewn ysgolion yng Nghymru. Ystyrir canlyniadau'r ymchwil hon cyn rhoi'r strategaeth ar waith.

Cyhoeddwyd y strategaeth ddrafft i ymgynghori yn ei chylch ym mis Chwefror 2007. Mae cyllid o £200,000 wedi'i neilltuo ar gyfer pob blwyddyn o 2006-07 i 2008-09 fel y gall yr awdurdodau lleol weithredu'r strategaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu canllawiau ar gyfer ysgolion, awdurdodau addysg lleol a phartneriaid eraill i hybu iechyd meddwl a lles cymdeithasol ymysg disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn meithrinfeydd. Bydd y canllawiau'n ymdrin ag agweddau fel dulliau ysgol gyfan o hybu iechyd meddwl cadarnhaol, adnabod arwyddion cynnar o broblemau iechyd meddwl a gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o broblemau iechyd meddwl a defnyddio systemau atgyfeirio priodol. Dosbarthir y canllawiau ar gyfer ymgynghori ar ddechrau 2007.

Addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae polisi addysg Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y rôl hollbwysig sydd i addysg wrth wireddu ei gweledigaeth o Gymru ddwyieithog.

Rhaid gosod sylfeini cadarn yn y cartref ac mewn lleoliadau cyn ysgol, a dyna pam y mae targed allweddol wedi'i osod yn Iaith Pawb, cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, i gynyddu canran y plant sy'n derbyn addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2011. Yn ogystal â menter Twf a'r Cylchoedd Ti a Fi (tudalen 40), mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin a Choleg y Drindod, Caerfyrddin i hyfforddi ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r angen, ac y bydd yr holl blant a phobl ifanc sy'n dymuno derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Rhai o'r mesurau penodol eraill i hybu'r Gymraeg yw:

- rhagbrofi prosiectau ar drochi iaith hwyr a dulliau addysgu iaith dwys a fydd yn sicrhau y bydd amrediad ehangach o bynciau ar gael i ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg;
- rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer yr ystafell ddosbarth;
- gweithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn yr amrediad o gymwysterau (yn enwedig rhai galwedigaethol) sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mesurau wedi'u targedu i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â dilyniant ieithyddol;
- delio â'r duedd i symud oddi wrth addysg Gymraeg iaith gyntaf at addysg Gymraeg ail iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Anghenion Addysgol Arbennig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae gan bob dysgwr anghenion dysgu unigol a rhaid wrth amryw o ddulliau i'w diwallu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr yn ffactorau pwysig wrth hyrwyddo mynediad at ddysgu. Os oes gan ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, rhaid eu canfod mor gynnar â phosibl, fel y bydd amrediad o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael iddynt ac fel y gallant wireddu eu potensial.

Gall fod yn anodd i rai awdurdodau lleol gynnal amrediad o wasanaethau i ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Er mwyn ymateb i hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi hyrwyddo cydweithio rhanbarthol i sicrhau nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys athrawon teithiol, i fodloni anghenion y dysgwyr hynny. Un agwedd ar hynny fu datblygu darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth llai cyffredin.

Mae trefniadau i gydgomisiynu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu'n cael eu rhagbrofi ar hyn o bryd yng Nghymru, ac mae gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol yn gweithio fel rhan o dimau integredig i ddarparu cymorth i ddysgwyr.

Mynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion

Mae ysgolion sy'n sefyll yn gadarn yn erbyn hiliaeth, ac yn rhoi gwybod am eu safiad i ddisgyblion, rhieni a staff, yn creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu sy'n ategu ac yn cyfrannu at eu llwyddiant. Er mwyn sicrhau bod arferion da ar wrthweithio hiliaeth mewn addysg yn dal i ddatblygu, mae Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi canllawiau i athrawon ac ysgolion ar ganfod, cofnodi a delio â digwyddiadau hiliol.

Fel rhan o'i Strategaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r holl Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion geisio'r safonau uchaf o ran:

- creu diwylliant ac ethos cadarnhaol yn yr ysgol;
- parhau i ddisgwyl y gorau gan bob disgybl;
- addasu'r cwricwlwm i hybu parch at ddiwylliannau, ieithoedd a hunaniaethau gwahanol;
- meithrin ymdeimlad o berthyn i hunaniaeth Gymreig amrywiol ac aml-ethnig;
- paratoi'r holl blant ar gyfer bywyd mewn byd amrywiol a rhyngddibynnol;
- darparu cymorth priodol o ran iaith a gwaith academaidd i'r holl ddisgyblion yn ôl eu hangen;
- sefyll yn gadarn yn erbyn rhagfarn, stereoteipio a gwahaniaethu o bob math gan gynnwys hiliaeth;
- cydweithio'n agos â'r gymuned, gan geisio sicrhau mwy o gyfraniad gan rieni o bob cefndir;

- ymdrechu i sicrhau bod gweithlu'r ysgol a'r corff llywodraethu'n adlewyrchu amrywiaeth yn y gymuned leol ac yn y gymdeithas Gymreig yn fwy cyffredinol.

Rhaid i benaethiaid ysgol a chyrff llywodraethu ysgol eu sicrhau eu hunain bod eu polisïau'n cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae'r olaf yn mynnu bod ysgolion yn llunio polisi cydraddoldeb hiliol ac yn sicrhau nad yw polisïau'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hiliol. Mae hefyd yn rhoi ysgolion dan ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da.

Addysg plant sydd yn y ddalfa ac mewn gofal

Roedd Pwyllgor y CU yn arbennig o awyddus i weld tystiolaeth o hawl statudol gyfartal i addysg ar gyfer plant sydd yn y ddalfa, a gwelliannau i addysg plant sydd mewn gofal.

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â Phennod 4 ar iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal, a Phennod 7 ar Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

Addysg a hyfforddiant i blant sy'n derbyn gofal

Mae'r canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn annerbyniol o isel, yn enwedig yn achos plant sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi preswyl. Mae'r hawliau sylfaenol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yn Ymestyn Hawliau yn arbennig o berthnasol i blant sy'n derbyn gofal o ystyried yr anfanteision y maent yn eu hwynebu. Yn arbennig, mae ganddynt hawli addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith sydd wedi'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion ac i sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau at fywyd llawn ac yn hybu cynhwysiant cymdeithasol.

Mae nifer o fesurau sydd â'r amcan o wella eu haddysg, gan gynnwys y rhai i gyflwyno Cynlluniau Addysg Personol ac i benodi cydgysylltwyr addysg i blant sy'n derbyn gofal. Mae tystiolaeth *(Analysis of Children First Management Action Plans (1999-2004)* gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Keele) yn dangos bod y cydgysylltwyr yn cael effaith gadarnhaol o ran sicrhau mynediad i ysgolion, broceru pecynnau o gymorth addysg ychwanegol ar gyfer y plentyn a chynorthwyo gofalwyr maeth. Mae dilyniant mewn addysg a chysylltiad â theuluoedd a ffrindiau hefyd yn hollbwysig i ddatblygiad y plentyn, ei allu i ddysgu a'i ymdeimlad o les. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd mewn addysg, cytunwyd ar ddull penodol o fesur perfformiad gydag awdurdodau lleol. Mae ymchwil yn dangos mai drwy leoli plant yn agos i'w cartrefi y ceir y canlyniad gorau ym mhob maes.

Mae Deddf Plant 2004 wedi rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu rhaglen weithredu i hyrwyddo'r gwaith hwn. Mae'r grŵp yn canolbwyntio'n gyntaf ar y meysydd canlynol:

- atgyfnerthu'r trefniadau i hyrwyddo addysg plant sy'n derbyn gofal drwy ddefnyddio pwerau dan Ddeddf Plant 2004;
- cymorth i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol fel y gallant hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal;
- ehangu mynediad at addysg bellach ac uwch ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.

Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddadl ar Adroddiad Dichonoldeb ym mis Mehefin 2006 ac fe'i derbyniwyd yn unfrydol. Roedd yr adroddiad yn argymell atgyfnerthu dyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol a'r GIG mewn cysylltiad â threfniadau lleoli ac adolygu a darpariaeth iechyd ac addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal ymgynghoriad a bydd rheoliadau a chanllawiau statudol yn dilyn yn 2007.

Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo elfen yng nghynllun grant Rhagori - sy'n dod i gyfanswm o £1 filiwn y flwyddyn yn 2006-07 a 2007-08 - i alluogi awdurdodau lleol i roi cymorth at addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae'r grant wedi'i anelu'n benodol at ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 i'w helpu i symud ymlaen i addysg bellach ac uwch neu i hyfforddiant seiliedig ar waith.

Prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc

Mae'r prosiect Dysgu ar gyfer Troseddwyr Ifanc yn ceisio gwella'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant i'r holl bobl ifanc 11-25 oed sydd yng Nghymru (neu sydd wedi dod o Gymru) sy'n adnabyddus i Dimau Troseddau Ieuenctid neu'n gleientiaid fel arall i'r system cyfiawnder troseddol.

Rhoddodd y prosiect gomisiwn i'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2006) i gynnal ymchwil i ganfyddiadau plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa.

Casglwyd gwybodaeth oddi wrth y bobl ifanc ar amryw o faterion gan gynnwys eu gallu i arfer eu hawliau, eu barn am eu hanghenion addysg a hyfforddiant, dulliau o ddiwallu eu hanghenion, ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol yn y gymuned ac yn y ddalfa. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel sail i weithgareddau pellach.

Mae prosiect peilot arloesol y Gweithiwr Cymorth Personol yn y Ddalfa ar waith yn awr yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc Stoke Heath ac Ashfield. Mae'n gweithio ar y cyd â Phartneriaethau Pobl Ifanc lleol a Thimau Troseddau Ieuenctid yn sir Ddinbych (yn y Gogledd) a Phen-y-bont ar Ogwr (yn y De). Mae'r prosiect yn defnyddio methodoleg gwaith ieuenctid i helpu pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o'r ddalfa yn ôl i'r gymuned.

Mae protocol newydd wedi'i weithredu fel rhan o'r prosiect. Mae'n cynnwys ymrwymiad i rannu gwybodaeth yn brydlon rhwng partneriaid, o fewn cyfyngiadau cyfreithiol y Ddeddf Diogelu Data. Disgwylir i hynny fod o gymorth i hybu datblygiad dysgu parhaus ac osgoi dyblygu diangen ar wasanaethau cymorth i droseddwyr ifanc, gan gau'r bwlch o ran yr ymgysylltu â dysgu, sgiliau a chyflogaeth rhwng y ddalfa a'r gymuned, yn enwedig ar ôl rhyddhau troseddwyr o'r ddalfa. Mae'r Protocol yn ymwneud yn bennaf â phobl ifanc o Gymru a charchardai, yn enwedig y sefydliadau yn Lloegr y bydd troseddwyr ifanc o Gymru'n cael eu hanfon iddynt.

Rhaglenni addysgol i famau yn eu harddegau

Roedd Pwyllgor y CU yn awyddus hefyd i weld hyrwyddo addysg rhieni yn eu harddegau, yn enwedig mamau.

Mae dogfen Llywodraeth y Cynulliad *Cynnwys* a *Chynorthwyo Disgyblion* (Tachwedd 2006) yn cynnig cyngor i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ar sicrhau bod rhieni ifanc (gan gynnwys tadau) yn cael mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, er mwyn lleihau'r perygl iddynt brofi allgáu cymdeithasol hirdymor. Mae'n nodi dyletswyddau awdurdodau addysg lleol ac ysgolion, o'r adeg y deuant i wybod yn gyntaf fod disgybl yn feichiog hyd at yr adeg y bydd y disgybl hwnnw'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o seibiant mamolaeth. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar weithio gydag asiantaethau eraill, addysg y tu allan i ysgolion, gofal plant, cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a'r angen i gydnabod anghenion tadau o oedran ysgol.

Bwlio

Mynegodd Pwyllgor y CU bryder ynghylch y bwlio sy'n gyffredin mewn ysgolion, ac argymhellodd y dylid datblygu mesurau gwrth-fwlio pellach mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod bwlio'n digwydd yn yr holl ysgolion yng Nghymru i wahanol raddau, ac mae wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion, awdurdodau addysg lleol, partneriaid eraill fel y Comisiynydd Plant a chyda'r plant a'r bobl ifanc eu hun, i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Cyhoeddwyd canllawiau gwrth-fwlio ar gyfer ysgolion yng Nghymru (*Parchu Eraill*, Cylchlythyr 23/2003) ym Medi 2003. Roeddent yn mynnu bod pob ysgol yn llunio polisïau ar fwlio drwy ymgynghori â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig enghreifftiau o ddulliau ymarferol a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â bwlio ledled y byd. Maent yn annog ysgolion i ddefnyddio'r dulliau sy'n fwyaf addas i'w hamgylchiadau eu hun, ac i ddilyn strategaethau ataliol ac ymatebol. Cynhaliwyd asesiad o bolisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion gan Brifysgol Caerdydd, ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Roedd ei hadroddiad (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2006) yn nodi beth a wnâi bolisi gwrth-fwlio'n un da neu'n un gwael, ac yn cynnig enghreifftiau i'w defnyddio gan Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion wrth asesu effeithiolrwydd eu polisïau eu hunain. Mae pecyn cymorth hunanwerthuso'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i helpu ysgolion i adolygu a datblygu eu polisïau gwrth-fwlio.

Noddodd Llywodraeth y Cynulliad yr wythnos gwrth-fwlio gyntaf i Gymru gyfan *(Wythnos Parchu Eraill)*, yn Hydref 2005. Amcan yr wythnos oedd hybu gwaith gwrth-fwlio mewn ysgolion a chanmol arferion da. Mae hyn wedi dod yn ddigwyddiad blynyddol bellach.

Lansiwyd Rhwydwaith Gwrth-fwlio Cymru yn ystod yr wythnos gwrth-fwlio yn 2005. Corff cynghorol yw hwn sy'n ceisio hyrwyddo cysylltiadau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid wrth fynd i'r afael â bwlio drwy rannu'r arferion gorau, cynllunio a darparu mesurau gwrth-fwlio, a chydgysylltu gweithgareddau gwrth-fwlio. Ceir cysylltiadau agos hefyd â gweinyddiaethau eraill y DU drwy gyfarfodydd y Fforwm Gwrth-fwlio.

Thema wythnos gwrth-fwlio 2006 oedd 'gwylwyr'. Roedd hon yn thema bwysig gan na ellir delio â bwlio drwy dargedu'r dioddefwr a'r bwli'n unig. Mae llawer o ddisgyblion/staff/rhieni sy'n gwybod bod bwlio'n disgwyl nad ydynt yn gwneud dim i helpu'r dioddefwr. Yn ystod yr wythnos, tynnwyd sylw at faterion a oedd yn ymwneud â gwylwyr, eu rhesymau dros beidio â gweithredu a sut i'w cymell i ddod ymlaen a chynorthwyo'r dioddefwr.

Mae plant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gwaith gwrth-fwlio yng Nghymru, yn benodol drwy ddatblygu gwybodaeth am yr hyn i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio, at bwy y dylid troi, a sut i helpu eraill sy'n cael eu bwlio. Cynhaliwyd ymgynghoriad â nifer o blant a phobl ifanc mewn ysgolion

cynradd ac uwchradd a grwpiau anabledd. Un o'r canlyniadau allweddol o hynny oedd cystadleuaeth i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd i ddylunio poster a siarter i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r posteri'n rhoi cyngor a manylion cysylltu i blant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio, neu sy'n dymuno helpu rhywun sy'n cael ei fwlio. Mae'r siarteri i'r ystafell ddosbarth yn nodi rheolau a/neu fathau o ymddygiad sy'n meithrin parch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at eraill. Mae'r posteri buddugol wedi'u dosbarthu i ysgolion, clybiau ieuenctid, meddygfeydd a chanolfannau hamdden ledled Cymru, ac mae'r siarteri buddugol i'r ystafell ddosbarth ar gael o wefan Llywodraeth y Cynulliad fel y bydd ysgolion sy'n dymuno eu mabwysiadu neu eu haddasu at eu defnydd eu hun yn gallu eu hargraffu.

CCUHP yng nghwricwlwm ysgolion

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cynnwys Confensiwn y CU ac addysg hawliau dynol yng nghwricwla ysgolion.

Ym Medi 2003, diwygiodd Llywodraeth y Cynulliad y ddeddfwriaeth fel bod Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn dod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir sydd o oedran ysgol gorfodol. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw cynllunio a darparu rhaglen eang a chynhwysfawr o ABCh i fodloni anghenion penodol y dysgwyr. Byddai hynny'n cynnwys dinasyddiaeth a hawliau plant a phobl ifanc. Cafodd y Fframwaith ABCh ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 i 4 ei ddiweddaru a'i adolygu yn Ebrill 2005, er mwyn cryfhau'r cyfeiriadau at Gonfensiwn y CU a hawliau dynol. Dan thema dinasyddiaeth weithgar, mae cyfeiriad penodol at hawliau pobl ifanc:

> "Dylai dysgwyr ymchwilio i'w hawliau a'u cyfrifoldebau mewn cymdeithas ddemocrataidd fel y maent wedi'u hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dylent ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau."

Yn yr adolygiad o'r cwricwlwm, argymhellwyd hefyd y dylid ymestyn y Fframwaith ABCh i gynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 blwydd oed.

Mae cyrff anllywodraethol wedi cymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r Fframwaith ABCh drwy gyfraniad y Cynghorydd Addysg, NSPCC Cymru (y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, Cymru) yn y Grŵp Cynghorol ar ABCh. Mae NSPCC Cymru yn ymwneud hefyd â datblygu canllawiau atodol ar ABCh i ysgolion a cholegau. Dosbarthwyd y cwricwlwm diwygiedig ar gyfer ymgynghori yn Ionawr 2007 gyda'r bwriad o'i roi ar waith

o ddechrau blwyddyn academaidd 2008. Ymgynghorir â chyrff anllywodraethol yng Nghymru ynghylch Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu gan Blant, adolygu Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, fframweithiau diwygiedig ar gyfer Addysg Grefyddol, ABCh a Gyrfaoedd a Byd Gwaith.

Tynnwyd sylw'n benodol at hawliau plant a hawliau dynol hefyd mewn canllawiau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Datblygwyd y canllawiau ar y cyd gan ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru), Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn y DU, ac fe'u cyhoeddwyd yn 2002. Un o'r cysyniadau allweddol a nodwyd oedd 'Anghenion a Hawliau' a oedd yn cynnwys "deall ein hanghenion sylfaenol ein hun a deall hawliau dynol a'r goblygiadau i anghenion cenedlaethau'r dyfodol sydd yn y camau a gymerir heddiw". Roedd y canllawiau'n cynnwys astudiaethau achos o arferion da mewn ysgolion.

Chwarae

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU yn ymwneud â'r hawl i chwarae. Yn 2002, Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ddatblygu Polisi Chwarae, er mwyn hyrwyddo'r hawl hon yn benodol.

Mae effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu'n sylweddol ar eu cyfle i chwarae'n rhydd, ac wedi arwain at brinder cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd cyffredinol. Er mwyn ymateb i hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad bolisi chwarae arloesol yn Hydref 2002. Roedd y polisi'n seiliedig ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y CU, ac yn cydnabod hollbwysigrwydd chwarae gyda'r bwriad o greu amgylchedd a oedd yn ei feithrin. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu manwl ar gyfer y Polisi Chwarae yn Chwefror 2006.

Roedd chwarae wedi'i gynnwys fel dyletswydd benodol yn Neddf Plant 2004, a bydd canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar gynllunio dan y Ddeddf Plant yn mynnu bod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn cydweithredu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc leol o ran chwarae. Mae chwarae'n thema allweddol hefyd yng nghynllun grant Cymorth, ac mae pob awdurdod lleol yng Nghymru'n parhau i ddefnyddio arian Cymorth i hybu chwarae. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn nodi pwysigrwydd chwarae a hamdden yng nghyd-destun iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio hefyd gyda'r Gronfa Loteri Fawr i ddatblygu cynigion ar gyfer o leiaf un Ganolfan Integredig yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i'r canolfannau gynnwys cyfleusterau

chwarae mynediad agored yn eu rhwydwaith o wasanaethau. Sefydlwyd 38 o Ganolfannau Integredig ac is-ganolfannau yng Nghymru.

Gall ysgolion fod â rhan allweddol wrth greu a gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae a gweithgareddau hamdden anffurfiol. Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed yn cydnabod y dystiolaeth o sawl gwlad bod plant yn dysgu orau drwy chwarae a thrwy gymryd rhan yn weithredol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymorth hefyd i ddatblygu adnoddau hyfforddi ar gyfer staff addysgu a staff eraill mewn ysgolion, ac mae'n paratoi canllawiau ar y modd y gallai Ysgolion Bro ddatblygu cyfleusterau chwarae mewn modd effeithiol.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar ddarpariaeth chwarae gymunedol briodol, ac mae'n gweithio gyda Chwarae Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu proffesiwn gweithwyr chwarae yng Nghymru. Mae llawer o awdurdodau lleol yn awr yn adolygu eu strategaethau chwarae yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae.

Gwasanaeth Ieuenctid

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu neu sicrhau Gwasanaeth Ieuenctid o safon uchel. Roedd y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio Ymestyn Hawliau, rhaglen flaenllaw Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer rhai 11-25 mlwydd oed, ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth ei rhoi ar waith.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio drwy Bartneriaethau Pobl Ifanc lleol i greu rhwydwaith o ddarpariaethau i alluogi pobl ifanc i arfer y 10 Hawl. Ei nodau yw:

- meithrin gallu pobl ifanc, drwy hyrwyddo eu sgiliau, eu hunan-barch, eu gallu creadigol a'u menter;
- hybu cynhwysiant cymdeithasol drwy gynorthwyo'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig, eu hailgynnwys mewn dysgu a'u gwneud yn fwy cyflogadwy drwy hynny;
- hybu dinasyddiaeth weithgar a meithrin ymwybyddiaeth mewn pobl ifanc o'u hawliau a'u cyfrifoldebau tuag at y gymuned ehangach.

Creir cysylltiadau â phobl ifanc drwy amryw o bwyntiau cyswllt, gan gynnwys clybiau ieuenctid; cyrff sydd â gwisg swyddogol; grwpiau crefyddol; gwaith stryd; gwasanaethau cynghori; canolfannau gwybodaeth a chyngor;

a chanolfannau arbenigol sy'n canolbwyntio, er enghraifft, ar y celfyddydau neu chwaraeon. Y canlyniad cyffredinol i raglenni'r Gwasanaeth Ieuenctid yw cynnydd yn niferoedd y bobl ifanc sydd yn y brif ffrwd gymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac addysgol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar hyn o bryd ar Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid, sydd â'r bwriad o:

- ganfod cwmpas, amrediad a phwrpas y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru;
- tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith ieuenctid ac addysg anffurfiol, ac egluro'r cyfraniad pwysig y gall y Gwasanaeth Ieuenctid ei roi at addysg, dysgu a datblygiad yr holl bobl ifanc;
- nodi'r adnoddau, y staff a'r strwythur sydd ar gael ar hyn o bryd i'r Gwasanaeth Ieuenctid i gyfrannu at addysg anffurfiol;
- pennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Genedlaethol;
- datblygu Cynllun Gweithredu bras i wireddu'r blaenoriaethau hyn.

Pennod 7: Mesurau Amddiffyn Arbennig

Erthygl 22 *Hawliau plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches.* **Erthygl 30** *Hawliau plant o leiafrifoedd ethnig, crefyddol ac ieithyddol.* **Erthygl 32** *Amddiffyniad rhag gwaith sy'n beryglus, neu'n niweidiol i'w hiechyd neu eu haddysg.* **Erthygl 33** *Mesurau priodol i amddiffyn plant rhag cyffuriau.* **Erthyglau 34-36** *Amddiffyniad rhag camfanteisio rhywiol a chamdriniaeth, masnachu mewn plant, a mathau eraill o gamfanteisio.* **Erthygl 37 (b)-(d)** *Triniaeth briodol i blant sy'n torri'r gyfraith.* **Erthygl 39** *Adfer ac integreiddio plant sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso.* **Erthygl 40** *Triniaeth o blant sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r gyfraith.*

Plant sy'n geiswyr lloches/ffoaduriaid

Roedd gan Bwyllgor y CU nifer o bryderon penodol am y modd y mae plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn cael eu trin yn y DU.

Meysydd sydd heb eu datganoli yw mewnfudo a lloches, ac mae'r rhan fwyaf o'r materion sy'n peri pryder i Bwyllgor y CU yn gyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref yn y DU. Mae hynny'n cynnwys cadw, gwasgaru a lletya ceiswyr lloches, a gweithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau lloches a mewnfudo. Er hynny, mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb dros wasanaethau fel iechyd addysg a thai sy'n cael eu defnyddio gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno sylwadau ar sawl achlysur i Lywodraeth y DU am agweddau ar faterion sy'n ymwneud â lloches, gan gynnwys pryderon am ddiffyg gwasanaethau eirioli i blant sy'n ceisio lloches neu sydd ar eu pen eu hun, a chadw ceiswyr lloches (yn enwedig rhai dan 18 oed).

Mae rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaethu yn erbyn ffoaduriaid, ac mae hynny'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Yn adroddiad Achub y Plant *Dyfodol Ansicr,* tynnwyd sylw at farn plant sy'n ffoaduriaid sydd wedi wynebu hiliaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi canllawiau i ysgolion ar fynd i'r afael â gwahaniaethu yn ogystal â datblygu hyfforddiant ar gydraddoldeb i athrawon a llywodraethwyr. Er bod mwy o waith i'w wneud, mae Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud sawl argymhelliad i ymdrin â'r materion hyn.

Gall plant sy'n ceisio lloches ddod i Gymru o ganlyniad i drefniadau gwasgaru'r Swyddfa Gartref neu gallent ddod yn gyfrifoldeb i awdurdod lleol penodol am ei fod yn cynnwys yr ardal y daeth y plentyn iddi'n gyntaf yn y DU. Ar ôl dod

i Gymru, mae gan blant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yr un hawl a'r un mynediad i addysg ag sydd gan blant sy'n ddinasyddion ac maent yn ddarostyngedig i'r un rheol, sef bod rhaid i bob plentyn fynychu ysgol rhwng 5 ac 16 oed oni bai fod trefniadau addas eraill wedi'u gwneud ar gyfer eu haddysg heblaw mewn ysgol. Mae'r Cynulliad yn cydnabod yr anghenion penodol sydd gan y plant hyn o ran dysgu a chymorth ac mae'n darparu grant ar gyfer Addysg Ceiswyr Lloches (£2.4 miliwn) sy'n cynorthwyo'r awdurdodau addysg lleol (AALlau) hynny y mae'n rhaid iddynt ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol a mecanweithiau cymorth ar gyfer disgyblion sy'n geiswyr lloches. Gellir defnyddio'r grant ar gyfer athrawon, cynorthwywyr cymorth iaith, cyfieithwyr, gwisgoedd ysgol, cludiant a phrydau bwyd a rhoddir mwy o gymorth os oes gan y plentyn anghenion addysgol arbennig. Mae cronfa sylweddol bellach gan y Cynulliad, i gynnig Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, sydd â chyllid o £5 miliwn ar hyn o bryd, er mwyn helpu AALlau i hybu cyflawniadau ymysg yr holl ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rhai y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, gan gynnwys disgyblion y cafwyd cadarnhad o'u statws fel ffoaduriaid.

Plant Teithwyr

Argymhellodd Pwyllgor y CU y dylid cael cynllun gweithredu penodol i hyrwyddo gallu plant o gymunedau Teithwyr i fwynhau eu hawliau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i greu amgylchedd dysgu lle y bydd plant o bob grŵp lleiafrifol, gan gynnwys plant Sipsiwn/Roma a Theithwyr, yn teimlo bod parch atynt ac anogaeth iddynt, ac mae wedi ymrwymo i ddelio â'r tangyrraedd sy'n tueddu i fod yn nodweddiadol o'u profiad mewn addysg ar hyn o bryd.

Mewn arolwg diweddar gan Estyn - yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru - canfuwyd bod llawer o awdurdodau addysg lleol yn darparu cymorth da iawn i ysgolion drwy Wasanaethau Addysg Teithwyr a bod y rhan fwyaf o'r addysgu ar gyfer plant Sipsiwn/Teithwyr yn dda, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn helpu nifer o awdurdodau addysg lleol gyda'r gwaith hwn drwy gynllun grant blynyddol sy'n werth bron i £1 filiwn, ac mae hefyd yn bwriadu cynnig cyngor newydd i ysgolion ar hanfodion y gwaith o wella cyflawniadau lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys disgyblion sy'n Sipsiwn/Teithwyr). Bydd y canllawiau hynny'n gwneud defnydd o ymchwil i brofiad y plant hynny o ddysgu yng Nghymru.

Gwneir llawer iawn ym maes addysg drwyddo draw i sicrhau cyfle cyfartal, i ddathlu amrywiaeth ac i fwyhau cyflawniadau disgyblion o leiafrifoedd ethnig, a bydd plant Sipsiwn/Teithwyr yn elwa o hynny. Er enghraifft, mae'r rheoliadau cyfredol ar Gynlluniau Addysg Sengl yn mynnu bod awdurdodau addysg lleol yn darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys plant Sipsiwn/Teithwyr. Mae safonau newydd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn galw am ddealltwriaeth drwyadl o faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a'r modd gorau i gyfoethogi'r profiad dysgu drwy wneud defnydd o gefndiroedd amlddiwylliannol y disgyblion.

Yn yr un modd, bydd y cwricwlwm ysgol diwygiedig y mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin ymgynghori arno'n cynnwys datganiad 'Cynnwys Pob Dysgwr' ar ddechrau pob gorchymyn pwnc. Mae'r datganiad yn tynnu sylw at y cyfrifoldeb sydd gan bob ysgol i ddatblygu cyfleoedd sy'n cynnal hunaniaethau ethnig a diwylliannol yr holl ddisgyblion ac i ymdrechu i ddileu gwahanfuriau cymdeithasol. Rhai o'r awgrymiadau a gynigir yw y dylid defnyddio celfyddyd, cerddoriaeth a dawnsfeydd o wahanol ddiwylliannau'n sail i wersi, ac y dylid annog plant i ddysgu sut i barchu barn a chefndir ei gilydd fel rhan o'u haddysg bersonol a chymdeithasol.

Un o'r materion hollbwysig sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru heddiw yw darpariaeth llety wael. Mae diffyg llety addas yn rhywbeth sy'n effeithio ar oedolion, ond mae'n arbennig o niweidiol i blant Sipsiwn a Theithwyr. Yn Rhagfyr 2004, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad astudiaeth o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am nifer, lleoliad a chyflwr safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Bydd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006, yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisi Llywodraeth y Cynulliad ar Sipsiwn a Theithwyr.

Cafwyd dadansoddiad yn yr adroddiad o'r rhwystrau rhag darparu safleoedd newydd, o gyfraniad y system gynllunio at hybu llety i Sipsiwn a Theithwyr, ac o arferion da ar gyfer darparu safleoedd. Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ac mae wedi dyrannu £5 miliwn at y gost

o adnewyddu safleoedd dros y pum mlynedd nesaf. Mae tîm neilltuol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo gwaith yn y maes hwn.

Camfanteisio rhywiol a masnachu

Dywedodd Pwyllgor y CU ei fod yn pryderu o hyd ynghylch problem camfanteisio rhywiol a masnachu mewn plant a phobl ifanc yn y DU.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU, asiantaethau lleol a chyrff eraill fel Comisiynydd Plant Cymru, i ddiogelu hawliau plant sy'n dioddef oherwydd camfanteisio rhywiol neu sydd mewn perygl oddi wrtho. Rhai o'r camau allweddol a gymerwyd ar lefel Cymru gyfan er 2000 yw:

- Canllawiau ar ddiogelu plant sy'n ymwneud â phuteindra (Mai 2000). Roedd y rhain yn mynnu bod Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant yn gwneud ymholiadau am raddau'r puteindra plant yn eu hardaloedd, ac yn datblygu protocolau i ddelio â'r plant hynny. Roeddent hefyd yn galw am ddarparu adnodd lleol ar gyfer pobl sy'n pryderu ynghylch plentyn sy'n ymwneud neu sydd mewn perygl o ymwneud â phuteindra;
- Cyhoeddwyd canllawiau ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad/ Adrannau Llywodraeth eraill o'r enw *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses, including Children (2002)*. Yn dilyn hynny yn 2004 cafwyd pecyn hyfforddi i helpu i weithredu'r canllawiau yng Nghymru a Lloegr (a gyhoeddwyd yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad ar ran Adrannau Llywodraeth eraill). Mae'r canllawiau a'r pecyn hyfforddi wedi'u bwriadu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn ogystal â'r heddlu ac unrhyw ymarferwyr eraill sy'n paratoi tystion ifanc neu'n eu cefnogi yn ystod y broses cyfiawnder troseddol;
- Sefydlu Grŵp Cynghorol ar Gamfanteisio Rhywiol ar Blant yng Nghymru (2004) i hyrwyddo ymateb cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl oherwydd camfanteisio rhywiol. Cadeirydd y Grŵp yw Comisiynydd Plant Cymru.

Rhoddwyd hwb pellach i fesurau i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol yng Nghymru drwy gyhoeddi adroddiad gan Barnardo's Cymru yn Nhachwedd 2005 a oedd yn mesur maint y broblem. Lansiwyd yr adroddiad, *Out of Sight, Out of Mind*, mewn cynhadledd a gynhaliwyd ar y cyd â Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain. Roedd yn seiliedig ar ymchwil a ganfu

184 o achosion gwahanol yng Nghymru (ond mae bron yn sicr bod hynny'n amcangyfrif rhy isel). Ystyriwyd y gwaith ymchwil a'r materion polisi cyffredinol sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol gan Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth y Cynulliad ar Blant a Phobl Ifanc ym Mawrth 2006, a chytunwyd ar amryw o gamau gweithredu i hyrwyddo'r gwaith hwn.

Yn eu plith mae:

- darparu cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i Barnardo's i ddatblygu canllawiau ar gyfer asiantaethau sy'n delio ag achosion o gamfanteisio rhywiol. Fe'u cyhoeddir ar ddechrau 2007;
- gwaith i ledaenu drwy Gymru brotocol a ddatblygwyd gan Fforwm Amddiffyn Plant Dyfed-Powys ar "Diogelu Plant sydd mewn Perygl o'u Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol, gan gynnwys Puteindra, Pornograffi a Pharatoi i Bwrpas Rhyw, neu drwy Weithgareddau Eraill";
- cynhadledd bwysig i Gymru gyfan yn Rhagfyr 2006, a ystyriodd gamfanteisio rhywiol ar blant yng nghyd-destun Cymru, yn ogystal â'r ymgynghori a'r adborth ar yr adolygiad o'r protocol.

Trafodir mesurau i ddelio â masnachu ar lefel y DU. Cyflwynwyd amryw o droseddau newydd gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, a ddaeth i rym ar 1 Mai 2004, a oedd yn adlewyrchu'r cynnydd mewn gwybodaeth am y camfanteisio rhywiol ar blant. Ceir darpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n delio â materion sy'n ymwneud â masnachu mewn plant o fewn y DU, yn ogystal â rhai sy'n dod i mewn i'r DU neu'n ei gadael, i ddibenion camfanteisio rhywiol. Mae trosedd newydd a mwy cyffredinol, sef "masnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio" wedi'i gynnwys yn Neddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr etc) 2004. Mae'r trosedd hwn yn cynnwys masnachu mewn pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant.

Cyfiawnder ieuenctid

Gwnaeth Pwyllgor y CU argymhelliad hir ynghylch gweinyddu cyfiawnder ieuenctid, gyda'r bwriad o sicrhau bod y system cyfiawnder ieuenctid yn llwyr ymgorffori egwyddorion Confensiwn y CU. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ym mis Gorffennaf 2004.

Un o egwyddorion allweddol Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yw y dylid trin pobl ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail, a chysylltwyd hynny'n glir â Chonfensiwn y CU - y tro cyntaf i Gonfensiwn y CU gael ei grybwyll mewn dogfen cyfiawnder ieuenctid.

Mae deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru'n dal yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU a'r Senedd yn San Steffan. Mae hyn yn cynnwys sawl mater sy'n peri pryder a godwyd gan Bwyllgor y CU yn ei Sylwadau Terfynol yn 2002. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad hawl i gael ei chynnwys mewn ymgyngoriadau ar newidiadau arfaethedig i'r fframwaith cyfiawnder ieuenctid, a hawl i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU. Mae wedi cyflwyno sylwadau am y defnydd o Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: mae o'r farn na ddylid ond eu defnyddio fel dewis olaf, ar ôl rhoi cynnig ar bob mesur arall.

Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn ceisio darparu fframwaith cenedlaethol i atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n cydnabod bod y fframwaith ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru'n dra gwahanol i'r hyn a geir yn Lloegr, yn enwedig mewn cysylltiad â threfniadau ariannu, ac o ran trefniadaeth y gwasanaethau perthnasol sy'n hanfodol i atal troseddu ymysg pobl ifanc. Mae amcanion a thargedau sy'n ymwneud â phob agwedd ar y Strategaeth yn cael eu datblygu gan y Grŵp Gweithredu bob blwyddyn.

Rhai o'r pwyntiau allweddol yn y Strategaeth yw:

- camau i ganfod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac i ddarparu rhaglenni i'w troi oddi wrth ymddygiad troseddol;
- sicrhau bod dewisiadau eraill effeithiol yn y gymuned yn lle'r ddalfa os yw hynny er y budd gorau i'r plentyn, yn unol ag Erthygl 37 (b) o'r Confensiwn. Mae'r Strategaeth yn nodi pum cam ar gyfer ymyrryd: mesurau ataliol, ymyriadau cynnar, dedfrydau cymunedol, y ddalfa ac adsefydlu. Mae'r Strategaeth yn cydnabod mai'r dull mwyaf effeithiol o beri nad yw pobl ifanc yn cael eu hanfon i'r ddalfa yw cadw cynifer ag y bo modd ohonynt yn y camau cynharach;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n mynd i gyfleusterau carcharol yn Lloegr yn cael yr un hawliau â'u cymheiriaid o Loegr, a phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig o awyddus i sicrhau bod pob ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion sy'n ymwneud â hunaniaeth a diwylliant, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg, mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn cyfleusterau carcharol yn Lloegr.

Mae'r prif gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn lleol yn eiddo i'r Timau Troseddau Ieuenctid. Mae 18 o'r rhain yng Nghymru, ac maent yn cynnwys staff ac adnoddau ehangach amryw o asiantaethau lleol - gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr heddlu, y gwasanaeth prawf ac iechyd.

Nod y Timau Troseddau Ieuenctid yw gostwng ac atal troseddu ymysg pobl ifanc drwy gydweithredu agos rhwng asiantaethau, yn arwain at adsefydlu'r person ifanc yn effeithiol mewn cymdeithas. Yn hyn o beth, maent yn hanfodol ar gyfer gweithredu Erthygl 40 yng Nghymru.

Un o egwyddorion pwysig Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yw y dylai pobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu neu eu remandio i'r ddalfa gael eu cadw mewn cyfleusterau lleol, lle bynnag y bo modd, fel y gallant gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymunedau a'u teuluoedd. Mae plant a phobl ifanc dan 18 oed yn cael eu gwahanu oddi wrth oedolion yn yr holl sefydliadau cadw yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y ddwy uned ddiogel i bobl ifanc yng Nghymru, sef Hillside (Castell-nedd Port Talbot) a Parc (Pen-y-bont ar Ogwr). Mewn adroddiad diweddar a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithgor y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, argymhellwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer ehangu'r cyfleusterau cadw i bobl ifanc yng Nghymru ymhellach, er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc y mae'n rhaid eu lleoli mewn sefydliadau yn Lloegr. Roeddent yn cynnwys cynigion ar gyfer cyfleusterau cadw yng ngogledd Cymru ac ehangu'r cyfleusterau yng Nghanolfan Ddiogel Hillside. Mae swyddogion yn ystyried yn fanwl sut y gellir rhoi'r cynigion ar waith ar hyn o bryd.

Un o egwyddorion allweddol y Strategaeth yw y dylai'r holl blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a'r rhai sy'n troseddu (gan gynnwys y rhai sydd yn y ddalfa) gael arfer yr hawliau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Ymestyn Hawliau. Mae hynny'n cynnwys hawl gyfartal i dderbyn gwasanaethau fel addysg, iechyd ac amddiffyn plant. Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau eirioli annibynnol a gweithdrefnau cwynion annibynnol sy'n hwylus i blant.

Mwy o Gopïau

I gael mwy o gopïau o'r ddogfen hon, cysylltwch â

Jane Hanbury
Tîm y Fframwaith Plant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 825101
E-bost: CFT@wales.gsi.gov.uk